# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Mehefin 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Yr ymchwiliad ar Lywodraethu o ran y DU a'r UE: Sesiwn dystiolaeth

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 1 - 36)

Yr Athro Catherine Barnard, Prifysgol Caergrawnt

Yr Athro Simon Usherwood, Y Brifysgol Agored

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 1 - Nodyn briffio ar gyfer y sesiwn dystiolaeth

LJC(6)-19-23 - Papur 2 - Canllaw gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd - Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru

LJC(6)-19-23 - Papur 3 - Canllaw gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd - Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Fframwaith Sefydliadol

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30 - 14.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(6)362 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 37 – 39)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.35 - 14.40)

**4.1 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Geirfa Caffael Cyffredin (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 40 – 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 5 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Mehefin 2023

**4.2 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd Cyngor Prydain-Iwerddon**

(Tudalen 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 6 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 12 Mehefin 2023

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid**

(Tudalennau 43 – 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 13 Mehefin 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(14.40 - 14.45)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

(Tudalen 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 12 Mehefin 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Y Bil Gwarchodaeth Rhag Aflonyddu Ar Sail Rhyw Yn Gyhoeddus**

(Tudalennau 46 - 49)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 9 Mehefin 2023 [Saesneg yn unig]

**5.3 Gohebiaeth â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, yr Arglwydd Bellamy, Cwnsler y Brenin**

(Tudalennau 50 - 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 10 – Llythyr gan yr Arglwydd Bellamy, Cwnsler y Brenin, 12 Mehefin 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-23 – Papur 11 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at yr Arglwydd Bellamy, Cwnsler y Brenin, 28 Ebrill 2023

LJC(6)-19-23 – Papur 12 – Llythyr at yr Arglwydd Bellamy, Cwnsler y Brenin, 11 Ebrill 2023

**5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)**

(Tudalennau 60 - 73)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023

LJC(6)-19-23 – Papur 14 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(14.45)

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

(14.45 - 14.55) (Tudalennau 74 - 85)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 15 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

**8 Yr ymchwiliad ar Lywodraethu o ran y DU a'r UE: Trafod y dystiolaeth**

(14.55 - 15.05)

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(15.05 - 15.15) (Tudalennau 86 - 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 16 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-23 - Papur 17 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Mehefin 2023

LJC(6)-19-23 - Papur 18 - Llythyr at y Prif Weinidog, 15 Mai 2023

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein: Adroddiad drafft**

(15.15 - 15.20) (Tudalennau 102 - 108)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 19 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**11 Trafod yr ohebiaeth: Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref**

(15.20 - 15.35) (Tudalennau 109 - 110)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 20 - Ymateb drafft [Saesneg yn unig]

## 12 Cytundebau rhyngwladol

(15.35 - 15.40) (Tudalennau 111 - 115)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-23 - Papur 21 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 13 Ystyried ymchwiliad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin i'r Gallu o ran Datganoli yn Whitehall

(15.40 - 15.45)

Tudalen ymholiad: Y Gallu o ran Datganoli yn Whitehall

## 14 Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): Diweddariad

(15.45 - 15.55)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon


# Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru

Mae cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu rheoli'n bennaf gan ddau gytuniad allweddol:

Mae'r Cytundeb Ymadael yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu eu perthynas newydd.

Mae'r ddau gytuniad yn cynnwys materion datganoledig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu gweithredu, megis pysgodfeydd, iechyd, yr economi a'r amgylchedd. Mae ein ffeithlun yn dangos pob Gweinidog a lle mae eu cyfrifoldebau'n cyffwrdd â phrif rannau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (CMC) a/neu'r Cytundeb Ymadael (CY).



Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Fframwaith Sefydliadol

Ionawr 2022






www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **sara.moran2@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Fframwaith Sefydliadol

Ionawr 2022

**Golygydd:**
Sara Moran



www.senedd.cymru

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yn gosod y telerau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r gyfres hon yn crynhoi rhannau allweddol o'r Cytundeb a'i oblygiadau i Gymru.

Ymadawodd y DU â'r UE yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2019 a dechreuwyd ar gyfnod pontio tra bod telerau ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar delerau eu perthynas yn y dyfodol yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ochr yn ochr â nifer o gytundebau a datganiadau ar y cyd eraill.

Daeth y cytundeb i rym dros dro o 1 Ionawr 2021, wrth aros am gadarnhad y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021.

Mae'r Cytundeb yn dilyn y **Cytundeb Ymadael**, a oedd yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r ddau gytundeb yn parhau mewn grym.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu cytundebau yn y dyfodol rhwng:

- y DU a'r UE;
- y DU a'r UE a 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE; a
- chytundebau dwyochrog rhwng y DU ac Euratom

oni ddarperir fel arall yn y cytundebau eu hunain. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau atodol' yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac maent yn rhan o'r fframwaith cyffredinol fel rhan annatod o'r cysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a'r UE.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Dirprwyaeth y DU ........ 3**

**3. Y Cyngor Partneriaeth ........ 4**

Cylch gorchwyl ........ 4

Penderfyniadau ac argymhellion ........ 4

Pwerau ychwanegol ........ 5

Cyfarfodydd ........ 5

Presenoldeb Llywodraeth Cymru ........ 5

**4. Pwyllgorau a Gweithgorau ........ 6**

Pwyllgorau Masnach ........ 6

Pwyllgor Partneriaethau Masnach (TPC) ........ 6

Pwyllgorau Arbenigol Masnach ........ 7

Pwyllgorau Arbenigol ........ 8

Gweithgorau ........ 10

Presenoldeb Llywodraeth Cymru ........ 10

**5. Cymdeithas sifil ........................................................................ 11**

Fforwm Cymdeithas Sifil ........................................................................ 11

Grwpiau Cynghori Domestig ........................................................................ 11

Cynrychiolaeth o Gymru ........................................................................ 12

**6. Cynulliad Partneriaeth Seneddol (PPA) ........................................ 13**

Dirprwyaethau ........................................................................ 13

Rôl y deddfwrfeydd datganoledig ........................................................................ 14

# 1. Cyflwyniad

## Cytunodd y DU a'r UE ar fframwaith sefydliadol ar y cyd newydd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r trefniadau i'w gweld yn Rhan Un ar y Darpariaethau Cyffredin a Sefydliadol.


Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 24 o bwyllgorau a gweithgorau newydd i oruchwylio'r gwaith o weithredu a chymhwyso'r Cytundeb. Darperir hefyd ar gyfer cyfranogiad cymdeithas sifil, yn ogystal ag ar gyfer cydweithredu seneddol rhwng Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio fframwaith sefydliadol newydd y DU-yr UE:

- Cyngor Partneriaeth
- Pwyllgorau
- Gweithgorau
- Grwpiau Cynghori Domestig
- Fforwm Cymdeithas Sifil
- Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Dangosir y fframwaith mewn ffeithlun ar ddechrau'r canllaw hwn.

## Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Fframwaith Sefydliadol



# 2. Dirprwyaeth y DU

Mater i'r DU a'r UE yw dethol eu dirprwyaethau eu hunain ar gyfer cyfarfodydd.

Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cynrychioli'r UE, er bod yr **UE wedi cytuno ar drefniadau mewnol** i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau fod yn bresennol.

Er mai Llywodraeth y DU sy'n cynrychioli'r DU yn bennaf, mae'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd. Ar 1 Gorffennaf, **cadarnhaodd** Llywodraeth y DU y bydd nifer yr aelodau yn ei dirprwyaethau'n amrywio o ran nifer, yn dibynnu ar yr agenda.

Yn dilyn hyn anfonwyd **llythyr gan Arglwydd David Frost o Lywodraeth y DU** at y llywodraethau datganoledig, yn nodi sut y mae'n bwriadu eu cynnwys yn fforymau'r DU-yr UE a sefydlwyd o ganlyniad i'r ddau gytundeb.

Cadarnhawyd yn y llythyr y byddai mwyafrif yr fforymau yn cael eu cyd-gadeirio gan swyddogion o'r Adran arweiniol gyfatebol yn Whitehall, gyda chefnogaeth tîm Swyddfa Gabinet yr Arglwydd Frost, ond y gallai llywodraethau datganoledig hefyd fod yn bresennol pan mae eitemau sydd o gymhwysedd datganoledig ar yr agenda.

Mae hyn yn ddarostyngedig i ddisgresiwn terfynol cyd-gadeirydd y DU, fodd bynnag. Dylai gwaith paratoi ar gyfer cyfarfodydd o'r fath gynnwys **cynrychiolwyr o'r llywodraethau datganoledig** hefyd 'fel mater o drefn arferol'.

Mae pob adran yn esbonio sut y caiff Cymru ei chynrychioli.

Roedd **erthygl gan Ymchwil y Senedd** ym mis Rhagfyr 2021 yn dangos pa gyfarfodydd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn bresennol ynddynt hyd yma.

# 3. Y Cyngor Partneriaeth

## Mae'r Cyngor Partneriaeth yn goruchwylio ac yn hwyluso'r gwaith o weithredu a chymhwyso'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac unrhyw gytundebau atodol rhwng y DU a'r UE.

Caiff ei gyd-gadeirio gan un cynrychiolydd o Lywodraeth y DU a Chomisiwn yr UE, ac mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn neu ar gais. Rheolir gwaith y Cyngor Partneriaeth gan Atodiad 1 [o Reolau Trefn y Cyngor Partneriaeth a Phwyllgorau].

### Cylch gorchwyl

Gall y Cyngor Partneriaeth fabwysiadu penderfyniadau, gwneud argymhellion a mabwysiadu diwygiadau i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r cytundebau atodol, ac eithrio mewn perthynas â'r trefniadau fframwaith sefydliadol a ddisgrifir yma.

Gall hefyd:

- drafod unrhyw faterion;
- dirprwyo rhai pwerau i'r Pwyllgor Partneriaethau Masnach neu'r Pwyllgorau Arbenigol;
- sefydlu neu ddiddymu pwyllgorau neu newid eu tasgau; a
- gwneud argymhellion i'r DU a'r UE ynghylch trosglwyddo data personol.

### Penderfyniadau ac argymhellion

Mae penderfyniadau'r Cyngor Partneriaeth (a'r Pwyllgorau) yn rhwymol ar bob corff a sefydlwyd yn sgil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r cytundebau atodol, gan gynnwys tribiwnlys cymrodeddu y Cytundeb ar gyfer datrys anghydfod.

Nid oes dim grym rhwymol gan argymhellion y Cyngor Partneriaeth.

Caiff penderfyniadau ac argymhellion eu mabwysiadu drwy gydsyniad pob ochr.

Mae rheolau gweithdrefnol yn nodi y dylai penderfyniadau ac argymhellion a wneir yn y cyfnod rhwng cyfarfodydd gael eu gwneud drwy weithdrefn ysgrifenedig rhwng y cyd-gadeiryddion. Mae gan y sawl sy'n derbyn fis i fynegi ei gytundeb â'r penderfyniad drafft neu'r argymhelliad, a chofnodir hyn yng nghofnodion cyfarfod

nesaf y Cyngor Partneriaeth. Os na fydd y parti hwnnw yn cytuno, bydd y drafft yn cael ei drafod neu ei fabwysiadu yn y cyfarfod nesaf. Bydd y penderfyniadau yn nodi ar ba ddyddiad y byddant yn dod i rym.

## Pwerau ychwanegol

Rhoddir pwerau ychwanegol i'r Cyngor Partneriaeth drwy gydol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Er enghraifft, mae ganddo'r pŵer i edrych yn fanwl ar effeithiau derbyn trydedd wlad i'r UE yn y dyfodol.

## Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus a chyhoeddir manylion yr agenda dros dro ymlaen llaw.

Mabwysiadwyd Saesneg fel yr iaith waith.

Bydd y Pwyllgorau'n rhoi gwybod i'r Cyngor Partneriaeth am amserlenni ac agendâu eu cyfarfodydd ymlaen llaw, ac am ganlyniadau a chasgliadau'r cyfarfodydd.

## Presenoldeb Llywodraeth Cymru

Ar 9 Mehefin, cynhaliwyd **cyfarfod cyntaf** Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Roedd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi Llywodraeth Cymru, yn y cyfarfod fel arsylwr.

# 4. Pwyllgorau a Gweithgorau

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 19 o bwyllgorau newydd i gefnogi'r Cyngor Partneriaeth. Mae 11 o bwyllgorau masnach ac wyth pwyllgor ar wahân i fasnach o'r enw 'Pwyllgorau Arbenigol', sydd â phwerau gwahanol. Mae'r Cytundeb hefyd yn sefydlu pedwar Gweithgor, ond mae modd sefydlu rhagor os dewisir.

Mae pwyllgorau newydd y DU-yr UE a sefydlir yn sgil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys:

- 11 o Bwyllgorau Masnach, sy'n cynnwys un Pwyllgor Partneriaethau Masnach a 10 o Bwyllgorau Arbenigol Masnach
- wyth Pwyllgor Arbenigol ar feysydd ar wahân i fasnach, fel ynni a thrafnidiaeth

Bydd pwyllgorau yn

- cynnwys cynrychiolwyr o bob parti, y bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod 'arbenigedd priodol' ar gael o ran y materion a drafodir; a
- gosod eu hamserlenni a'u hagendâu eu hunain ar gyfer cyfarfodydd drwy gydsyniad.

Rheolir gwaith y Pwyllgorau gan Atodiad 1 [o Reolau Trefn y Cyngor Partneriaeth a'r Pwyllgorau], er y gall y Pwyllgorau ddiwygio'r rheolau sy'n llywodraethu eu gwaith eu hunain.

## Pwyllgorau Masnach

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu un Pwyllgor Partneriaeth Masnach a 10 Pwyllgor Arbenigol Masnach.

### Pwyllgor Partneriaethau Masnach (TPC)

**Rôl**

Rôl y Pwyllgor Partneriaethau Masnach yw adrodd i, a chynorthwyo, y Cyngor Partneriaeth a chyflawni unrhyw dasg neu arfer unrhyw bwerau a roddir iddo. Bydd

y Pwyllgor yn goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chytundebau atodol, yn ogystal â gwaith y Pwyllgorau Arbenigol Masnach. Gall fabwysiadu penderfyniadau neu wneud argymhellion pan fo'r pŵer i wneud hynny wedi'i ddirprwyo iddo gan y Cyngor Partneriaeth. Mae ganddo hefyd y pŵer i 'edrych yn fanwl ar y ffordd fwyaf priodol' o atal neu ddatrys anawsterau sy'n codi y tu allan i weithdrefn setlo anghydfod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac i sefydlu neu ddiddymu Pwyllgorau a Gweithgorau Arbenigol Masnach.

**Cylch gorchwyl**

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Partneriaethau Masnach yn ymestyn i gynnwys materion masnach a gwmpesir yn:

- Rhan Dau Pennawd Un y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar Fasnach (gydag eithriadau ar gyfer rhai materion ynni);
- Rhan Dau Pennawd Chwech y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar Ddarpariaethau Eraill. Mae Pennawd Chwech yn ymdrin â diffiniadau sy'n ymwneud â masnach, y berthynas rhwng y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chytundebau Sefydliad Masnach y Byd, cymhwyso daearyddol a therfynu Rhan Dau; ac
- Atodiad 27 y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar ynni a chymorthdaliadau amgylcheddol.

Nid yw cylch gwaith y Pwyllgor Partneriaethau Masnach yn ymestyn i gynnwys materion eraill a gwmpesir yn Rhan Dau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fel hedfan, trafnidiaeth ffyrdd, cyd-drefnu nawdd cymdeithasol a fisas ar gyfer ymweliadau tymor byr, pysgodfeydd na materion ynni sy'n weddill.

**Cyfarfodydd**

Caiff y Pwyllgor Partneriaethau Masnach ei gyd-gadeirio gan uwch gynrychiolwyr o'r DU a'r UE sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â masnach, neu eu darpar gynrychiolwyr. Bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod ar gais, neu o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Pwyllgorau Arbenigol Masnach

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 10 Pwyllgor Arbenigol Masnach (TSC) ar gyfer y meysydd a ganlyn:

1. Nwyddau

2. Cydweithredu â Thollau a Rheolau Tarddiad
3. Mesurau iechydol a ffytoiechydol
4. Rhwystrau Technegol i Fasnach
5. Gwasanaethau, Buddsoddi a Masnach Ddigidol
6. Eiddo Deallusol
7. Caffael Cyhoeddus
8. Cydweithredu Rheoleiddiol
9. Tegwch yn y Farchnad (LPF) ar gyfer Cystadleuaeth Agored a Theg a Datblygu Cynaliadwy
10. Cydweithrediad Gweinyddol mewn TAW, ac Adennill Trethi a Thollau

**Rôl**

Mae gan y Pwyllgorau Arbenigol Masnach y pŵer i fonitro ac adolygu gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r cytundebau atodol, i gynorthwyo ac adrodd i'r Pwyllgor Partneriaethau Masnach (TPC) (gan gynnwys cyflawni tasgau a neilltuwyd iddynt), i gynnal gwaith technegol paratoadol (yn enwedig lle mae'n rhaid i'r Cyngor Partneriaeth neu'r Pwyllgor Partneriaethau Masnach fabwysiadu penderfyniadau neu wneud argymhellion), i fabwysiadu penderfyniadau, i drafod materion technegol a chyfnewid gwybodaeth, i rannu arferion gorau a phrofiadau gweithredu.

**Cyfarfodydd**

Bydd y Pwyllgorau Arbenigol Masnach yn cael eu cyd-gadeirio gan gynrychiolwyr o'r DU a'r UE a byddant yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, oni bai y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, neu oni bai bod y cyd-gadeiryddion yn penderfynu fel arall.

## Pwyllgorau Arbenigol

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 8 Pwyllgor Arbenigol ar y meysydd a ganlyn:

1. Ynni
2. Trafnidiaeth Awyr
3. Diogelwch Hedfan

4. Trafnidiaeth Ffyrdd
5. Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol
6. Pysgodfeydd
7. Gorfodi’r gyfraith a chydweithredu barnwrol
8. Cyfranogiad yn rhaglenni’r Undeb

Mae’r rhain yn cyfateb i’w penawdau cymwys o dan Ran Dau, a Rhan Tri a Rhan Pump o’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn eu cyfanrwydd.

**Rôl**

Rōl y Pwyllgorau Arbenigol yw monitro ac adolygu gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a’r cytundebau atodol, cynorthwyo ac adrodd i’r Cyngor Partneriaeth (gan gynnwys cyflawni tasgau a neilltuwyd iddynt), mabwysiadu penderfyniadau, gan gynnwys diwygiadau ac argymhellion y mae’r Cytundeb yn darparu ar eu cyfer neu lle mae’r Cyngor Partneriaeth wedi dirprwyo ei bwerau, trafod materion technegol, cyfnewid gwybodaeth, trafod arfer gorau a rhannu profiadau gweithredu.

**Pwerau ychwanegol i ddatrys anghydfodau rhwng y DU a’r UE**

Mae gan y Pwyllgorau Arbenigol rôl a chylch gorchwyl ychwanegol o gymharu â’r Pwyllgorau Arbenigol Masnach. Gallant:

- sefydlu a diddymu Gweithgorau; a
- chwarae rhan ffurfiol yng ngweithdrefn setlo anghydfod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Gall ei broses ymgynghori ddigwydd o fewn fframwaith Pwyllgor Arbenigol neu’r Cyngor Partneriaeth. Gall y Pwyllgorau Arbenigol gyfeirio’r anghydfod at y Cyngor Partneriaeth, ond gall y Cyngor Partneriaeth hefyd benderfynu gwrando ar y mater ei hun. Ni ddarperir rhagor o fanylion ynghylch sut mae hyn yn gweithio.

Mae gan y Pwyllgorau Arbenigol y pŵer i ddatrys anghydfodau drwy gyhoeddi penderfyniadau rhwymol yn y meysydd hedfan, trafnidiaeth ffyrdd, cyd-drefnu nawdd cymdeithasol a fisas ar gyfer ymwelwyr tymor byr, pysgodfeydd a rhai materion ynni. Nid all y Pwyllgorau Arbenigol wneud hynny o ran materion ynni eraill.

**Cyfarfodydd**

Caiff y Pwyllgorau Arbenigol eu cyd-gadeirio gan gynrychiolwyr o’r DU a’r UE a byddant yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, oni bai y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu oni bai bod y cyd-gadeiryddion yn penderfynu fel arall.

## Gweithgorau

Mae’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu pedwar Gweithgor.

Bydd y tri Gweithgor a ganlyn yn cynorthwyo’r Pwyllgor Arbenigol Masnach o ran Rhwystrau Technegol i Fasnachu:

- Cynhyrchion Organig
- Cerbydau modur a chydrannau
- Cynhyrchion Meddyginiaethol

Bydd pedwerydd Gweithgor ar Gyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol yn cynorthwyo’r Pwyllgor Arbenigol ar y pwnc hwnnw.

Gall y Cyngor Partneriaeth Masnach neu’r Pwyllgorau Arbenigol sefydlu Gweithgorau.

Bydd Gweithgorau yn gweithio o dan oruchwyliaeth y Pwyllgorau i’w cynorthwyo â thasgau, i baratoi eu gwaith ac i gyflawni tasgau a neilltuwyd iddynt. Cânt eu cyd-gadeirio a bydd cynrychiolwyr o’r DU a’r UE yn bresennol ynddynt. Maent yn gosod eu rheolau trefn, amserlenni eu cyfarfodydd a’u hagendâu eu hunain drwy gydsyniad pob ochr.

## Presenoldeb Llywodraeth Cymru

Mae dirprwyaeth y DU ar bwyllgorau’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi cynnwys **swyddogion o Lywodraeth Cymru** ar gyfer y cyfarfodydd cyntaf ar gyd-drefnu nawdd cymdeithasol, ynni, pysgodfeydd, cydgysylltu rheoliadol a’r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn ymwneud â masnach. Nid oeddent yn rhan o ddirprwyaeth y DU yn y **cyfarfod ar gaffael cyhoeddus**, sef maes datganoledig, nac yn y **cyfarfod ar eiddo deallusol** sef mater a gadwyd yn ôl.

Nid yw’r wybodaeth am y rhai a oedd yn bresennol yn y **cyfarfodydd a oedd yn weddill** a gynhaliwyd ers hynny ar gael i’r cyhoedd eto.

# 5. Cymdeithas sifil

Mae dyletswydd ar y DU a'r UE i ymgynghori â chymdeithas sifil ynghylch gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac unrhyw gytundebau atodol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a/neu ymgynghori â Grwpiau Cynghori Domestig a Fforwm Cymdeithas Sifil.

## Fforwm Cymdeithas Sifil

Rhoddir dyletswydd ar y DU a'r UE i hwyluso Fforwm Cymdeithas Sifil newydd i gynnal deialog ar weithredu Rhan Dau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (ar fasnach, ynni, trafnidiaeth awyr, diogelwch hedfan, trafnidiaeth ffyrdd, cyd-drefnu nawdd cymdeithasol a physgodfeydd). Mabwysiadwyd ei ganllawiau gweithredol gan y Cyngor Partneriaeth.

Bydd y rhai sy'n bresennol yn cynrychioli sefydliadau cymdeithas sifil annibynnol, gan gynnwys aelodau o'r Grwpiau Cynghori Domestig. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf unwaith y flwyddyn, oni chytunir fel arall gan y partïon.

## Grwpiau Cynghori Domestig

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon ymgynghori â Grwpiau Cynghori Domestig sydd newydd eu creu, neu sy'n bodoli eisoes, ar faterion a gwmpesir gan y Cytundeb neu unrhyw gytundebau atodol. Felly mae gan y Grwpiau Cynghori Domestig gylch gorchwyl ehangach na'r Fforwm Cymdeithas Sifil a ddisgrifir uchod, y mae ei gylch gorchwyl yn ymwneud â Rhan Dau yn unig o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Bydd y grwpiau'n cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil annibynnol, fel sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau busnes a chyflogwyr, undebau llafur a'r rhai sy'n ymwneud â materion cymdeithasol, materion sy'n gysylltiedig â hawliau dynol, materion amgylcheddol ac eraill.

Rhoddir dyletswydd ar y DU a'r UE i ystyried barn neu argymhellion y Grwpiau a cheisio ymgynghori â hwy o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhaid i'r DU a'r UE hefyd ymdrechu i gyhoeddi rhestr o sefydliadau, gan gynnwys eu personau cyswllt.

## Cynrychiolaeth o Gymru

Bu Llywodraeth y DU yn **ymgynghori** o ran y gwaith o ymgysylltu â grwpiau busnes a chymdeithas sifil, a chyhoeddwyd **Mynegiant o Ddiddordeb o ran aelodaeth** un Grŵp Cynghori Domestig y DU 2021. Parhaodd yr ymgynghoriad tan **ddiwedd mis Tachwedd 2021**.

Roedd y **ddogfen ymgynghori** yn nodi y bydd yn pennu aelodaeth ar ôl ystyried "cynrychiolaeth ddaearyddol a rhanbarthol" i sicrhau bod yr aelodaeth mor "gytbwys ag y gall fod".

# 6. Cynulliad Partneriaeth Seneddol (PPA)

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu opsiwn i sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar gyfer cydweithredu seneddol rhwng Senedd Ewrop a 'Senedd y Deyrnas Unedig.'

Os caiff ei sefydlu, bydd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol:

- Yn cael gwybod am benderfyniadau ac argymhellion y Cyngor Partneriaeth;
- Gall ofyn am 'wybodaeth berthnasol' ynghylch gweithredu'r Cynllun Masnach a Chydweithredu a'r cytundebau atodol gan y Cyngor Partneriaeth; a
- Gall wneud argymhellion i'r Cyngor Partneriaeth.

## Dirprwyaethau

Mae Senedd y DU a Senedd Ewrop ill dwy wedi cadarnhau y bydd eu dirprwyaethau yn cynnwys 35 o aelodau.

Ar 16 Tachwedd, **cadarnhaodd Tŷ'r Arglwyddi** y byddai dirprwyaeth y DU yn cynnwys 21 Aelod Seneddol a 14 Aelod o Dŷ'r Arglwyddi, gan barchu'r cydbwysedd o ran y pleidiau yn y ddau Dŷ.

Bydd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn:

- cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, bob yn ail rhwng Llundain a Brwsel/Strasbwrg;
- cael ei arwain gan Fiwro, sy'n cynnwys Cyd-Gadeirydd a dau Is-Gadeirydd o'r ddwy ddirprwyaeth. Mae'r Biwro yn debygol o gyfarfod rhwng cyfarfodydd llawn.

Disgwylir i bob cyfarfod o'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol arwain at adroddiad cryno a fydd ar gael i bob aelod.

Ar 5 Hydref, **cytunodd** Senedd Ewrop yn ffurfiol i benodi ei dirprwyaeth a fydd **yn cynnwys 35 o Aelodau**.

## Rôl y deddfwrfeydd datganoledig

Ar 21 Medi, **ymatebodd** Arglwydd Kinnoull a Syr Oliver Heald, sef y cynrychiolwyr o Senedd y DU, **i gais gan bwyllgorau** yn y deddfwrfeydd datganoledig, gan ddweud y byddent yn ceisio eu cynnwys yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Ar 16 Tachwedd, **cadarnhaodd Tŷ'r Arglwyddi** y byddai "sylwedyddion" o'r deddfwrfeydd datganoledig hefyd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol, yn amodol ar gytundeb Senedd Ewrop.

# SL(6)362 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"). Mae Atodlen 19 yn enwi'r awdurdodau cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf 2010, sy'n darparu ei bod yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf 2010 neu o dan y Ddeddf honno;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno, a

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010 i ddisodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, wedi i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") gael ei phasio. Daw'r Rheoliadau i rym ar 4 Medi 2023 ond hyd nes bydd adran 23 o Ddeddf 2022 yn dod i rym, bydd y cyfeiriad at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn Neddf 2010 yn cael ei ddarllen fel pe bai'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## Y drefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Craffu Technegol

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**.

Mae dau bwynt i'w nodi yn y prif nodyn i'r Rheoliadau:-

a) nid yw'r testun Saesneg yn defnyddio'r prif nodyn safonol ar gyfer offerynnau statudol cadarnhaol drafft. O ganlyniad, mae'r geiriau "for approval" yn ymddangos ddwywaith yn y frawddeg; a

b) mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn y ddau brif nodyn gan nad oes cyfieithiad o'r geiriau "for approval by resolution of Senedd Cymru" yn y testun Cymraeg.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Nid yw Rheoliad 2(b), yn nodi'n bendant ble y dylid cynnwys yr enw newydd yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'n briodol dweud bod testun yn cael ei fewnosod "yn y man priodol" oni bai bod enwau'r holl gyrff yn cael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor, a'i bod yn glir ble y dylid mewnosod yr enw newydd. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau blaenorol i'r un rhestr o gyrff addysgol eraill wedi mewnosod enwau'r cyrff newydd ar ddiwedd y rhestr. O ganlyniad, nid yw'r holl enwau a gofnodir yn y rhestr bresennol yn nhrefn yr wyddor felly gallai ansicrwydd godi ynghylch ble i fewnosod y cofnod newydd ar ddechrau'r rhestr neu ar ddiwedd y rhestr.

Mae diwygiadau blaenorol a wnaed i Ran 2 o Atodlen 19 i gyd wedi disgrifio lleoliad y mewnosodiad drwy nodi "O dan yr is-bennawd "Cyrff addysgol eraill"….";

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19, ond ni yw'n nodi mai hon yw Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010. Mae rheoliad 3 yn cyfeirio at Ddeddf 2022 ac felly mae'n bosibl y byddai person sy'n darllen rheoliad 3 ar ei ben ei hun yn ansicr ynglŷn â'i ystyr. Mae'r cyfeiriad at Ddeddf 2010 hefyd ar goll yn y pennawd i reoliad 2.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 4 Medi 2023, er bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi'i sefydlu ar 15 Rhagfyr 2022. Gofyniir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud i ddod i rym ar 4 Medi 2023 yn hytrach na 15 Rhagfyr 2022 neu ym mis Ebrill 2024, sef pan ddaw adran 23 o Ddeddf 2022 i rym, yn ôl y Memorandwm Esboniadol.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio fel a ganlyn at ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus:

> *...hynny yw'r ddyletswydd 'sylw dyladwy' i sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu...*

Mae'r disgrifiad hwn yn hepgor y drydedd elfen yn nyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sef i roi sylw dyledus i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Os yw darpariaeth mewn Deddf i'w disgrifio mewn Memorandwm Esboniadol, mae'n bwysig gwneud hyn yn fanwl gywir er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Gofynnir i Lywodraeth Cymru felly egluro pam mae'n cyfeirio dim ond at ddwy elfen o'r ddyletswydd, ac nid y drydedd elfen.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Mehefin 2023**

Eitem 4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Eirfa Gaffael Gyffredin (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin 2023** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Rheoliad 2195/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Tachwedd 2002 ar yr Eirfa Gaffael Gyffredin ("CPV")

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae'r OS hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi i swyddogaethau gael eu harfer gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, y mae rhai ohonynt yn gofyn am gydsyniad ymlaen llaw Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Byddai'r swyddogaethau hyn yn gyfystyr â swyddogaethau naill ai un o Weinidogion y Goron neu awdurdod cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) at ddibenion Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw diweddaru dau god CPV sy'n defnyddio iaith sydd wedi dyddio sy'n anghydnaws â deddfwriaeth cydraddoldeb ar draws y DU.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad ar gael yma:

The Common Procurement Vocabulary (Amendment) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)

The Common Procurement Vocabulary (Amendment) Regulations 2023 - Explanatory Memorandum (legislation.gov.uk)

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen o ran y llyfr statud. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

12 Mehefin 2023

Annwyl Huw

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu o 39ain cyfarfod Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, sy'n digwydd yr wythnos hon ac sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Jersey.

Byddaf yn mynychu'r uwch-gynhadledd yn bersonol. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael diweddariad cyffredinol ar faterion, mae thema'r Uwchgynhadledd yn ymwneud â pholisi tai ac ynni a'i deitl yw 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol: Gwyrdd a Fforddiadwy'.

Bydd y Cyngor yn cytuno ar gyfathrebiad yn yr Uwchgynhadledd a fydd yn manylu ar y trafodaethau a gynhelir, a byddaf yn ysgrifennu atoch i'w rhannu â chi. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd gyda datganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: RE/178/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y byddaf yn cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 22 Mehefin yng Nghaerdydd.

Dyma'r tro cyntaf y bydd Shona Robison MSP, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid newydd, yn ymuno â ni yng nghyfarfod y Pwyllgor, ac rwy'n edrych ymlaen at ei chroesawu.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddiogelwch ynni, gan ystyried y mater hwn drwy lens economaidd a chyllidol. Byddwn yn trafod ynni adnewyddadwy, gan gynnwys seilwaith y grid a sut y gellid sicrhau bod y gost o drosglwyddo i ynni gwyrddach yn cael ei chymdeithasoli a'i dyrannu mewn modd teg, fel nad yw'r dinasyddion tlotaf yn ein cymunedau yn wynebu'r cynnydd cymharol mwyaf yn y costau y maent yn eu talu. Byddaf yn tynnu sylw at brosiectau arloesol yng Nghymru, ac yn amlinellu'r meysydd lle mae angen buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, gan drafod y cyfleoedd o ran swyddi a gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi.

Hefyd, byddwn yn trafod eitem ar y pwysau ar wariant cyhoeddus a'r rhagolygon economaidd, a fydd yn cynnwys targed Prif Weinidog y DU i haneru chwyddiant, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddarparu cymorth costau byw. Bydd ffocws ar ariannu'r GIG, a byddaf hefyd yn ceisio eglurder o ran sut y mae dyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu yn Lloegr, ac a fydd hynny'n arwain at gyllid canlyniadol ar gyfer Cymru. Hefyd bydd trafodaeth ar bwysau sy'n ymwneud â chyllid cyfalaf a hyblygrwydd cyllidebol.

Rhoddir diweddariad ar y cyllid sydd yn lle cyllid yr UE; gwybodaeth am hynt y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf; ac oherwydd bod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid wedi bod yn weithredol ers dros flwyddyn, byddwn yn trafod y cynlluniau i gynnal adolygiad o'i gylch gorchwyl a'i drefniadau gweithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, rwyf wedi gwneud cais am gynnal cyfarfod dwyochrog gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ochr yn ochr â'r Pwyllgor i drafod y pwysau ar wariant a'r rhagolygon economaidd sy'n benodol i Gymru, yn ogystal a chadernid yn wyneb newid hinsawdd, gyda ffocws ar gefnogi cymunedau diwydiannol.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod hwnnw.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1094/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

12 Mehefin 2023

Annwyl Huw Irranca-Davies AS

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi y bydd Rheoliadau Gwastraff Deunydd Pacio (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 yn cael ei osod yn fuan cyn i'r Senedd ddod o dan gwmpas y Fframwaith Adnoddau a Gwastraff.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jane Hutt AS/MS
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

09 June 2023

Thank you for the Committee's consideration of the Legislative Consent Memorandum on the Protection from Sex-based Harassment in Public Bill and for your report published 8 June.

I appreciate your feedback and the chance to respond regarding this important area of our work, to end violence against women and girls, and gender-based harassment in all public spaces.

Please find attached the Welsh Government's written response to the Committee's Recommendations.

Yours sincerely,

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Written Response by the Welsh Government to the report of the Legislation, Justice and Constitution Committee entitled 'The Welsh Government's Legislative Consent Memorandum on the Protection from Sex-based Harassment in Public Bill'**

---

Thank you for the Legislation, Justice and Constitution Committee's report on the Welsh Government's Legislative Consent Memorandum on the Protection from Sex-based Harassment in Public Bill (the "Bill").

I welcome the conclusion reached by the majority of the Committee that clauses 1, 3 and 4(3) and (4) of the Bill require the consent of the Senedd. This is consistent with the position set out in the Legislative Consent Memorandum.

I note the view of the Committee that the whole of clause 4 including subclauses (1), (2), (5) and (6) of the Bill require the Senedd's consent. The Welsh Government's position is that these provisions do not require consent as they have no substantive legal effect.

I have set out my response to the Report's recommendation below.

**Recommendation 1**

The Committee recommends that: The Minister should clarify why the Welsh Government has not brought forward its own Bill to create a new offence about the intentional harassment, alarm or distress to a person in public where the behaviour is done because of that person's sex and, in doing so, should explain if the Welsh Government has any concerns about the Senedd's legislative competence to pass its own legislation on this matter.

**Response: Accept**

My officials explored the option of the Welsh Government bringing forward its own Bill very seriously, but it became clear that this would not have been a timely option in this case. I was also informed that bringing forward our own legislation through the Senedd, with an aim of a similar commencement date to the UK Bill, would have had detrimental impacts on the delivery of other Bills, which I considered unacceptable.

Our principles provide that there are circumstances in which it may be sensible and advantageous to seek provision for Wales, which would be within the Senedd's legislative competence, within UK Parliamentary Bills, with the consent of the Senedd. This is a single-issue Bill, in line with our Programme for Government and our Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Strategy 2022-26, and therefore our recommendation to consent to this Bill is entirely consistent with those principles, in order to ensure that a serious issue is addressed in as timely a fashion as possible.

I do not have concerns regarding the Senedd's legislative competence to pass its own legislation on this matter. As stated, it has simply been a case of timing and

resources available to match the fast progress of the UK Private Members Bill in this case.

**Financial Implications: None**

**Recommendation 2**

The Committee recommends that: The Minister should confirm if the Welsh Government sought a power on the face of the Bill for the Welsh Ministers to commence clauses 1 and 3 of the Bill as they apply in Wales before agreeing to enter into a Memorandum of Understanding with the UK Government. If the Minister did not seek such a power, she should explain the reason for not doing so.

**Response: Accept**

I can confirm that I wrote to the UK Minister for Safeguarding Sarah Dines on three occasions, alongside discussions between our officials, to strongly advocate for a power on the face of the Bill for Welsh Ministers to commence the relevant provisions in Wales. I received two replies to these letters, from UK Minister for Safeguarding Sarah Dines, which refused this request.

**Financial Implications: None**

**Recommendation 3**

The Committee recommends that: The Minister should confirm if any discussions have taken place and/or what is the Welsh Government's understanding of what is meant by "reasonable time" which appears in the terms of the Memorandum of Understanding.

**Response: Accept**

The Welsh Government's understanding of what is meant by "reasonable time" is case specific depending on individual circumstances. This is a common legal concept and we do not consider this term will give rise to any issues.

**Financial Implications: None**

**Recommendation 4**

The Committee recommends that: Should the Welsh Ministers propose an alternative commencement date to the one proposed by the Secretary of State, the Minister should confirm whether, when and how a formal dispute resolution process will be engaged should Welsh Government and UK Government officials be unable to agree a suitable commencement date.

**Response: Accept**

The Memorandum of Understanding, agreed and signed between the Secretary of State for the Home Department and the Welsh Ministers states that, if Welsh Ministers propose an alternative commencement date and the Secretary of State does not agree with it, the Participants will arrange a meeting between officials to discuss and seek to agree a suitable commencement date.

**Financial Implications: None**

**Recommendation 5**

The Committee recommends that: The Minister should explain what action the Welsh Government would take should the Secretary of State decide not to propose a commencement date for clauses 1 and 3 of the Bill.

**Response: Accept**

If the Bill is not commenced for any reason, I will explore further options to legislate for a similar offence in Wales.

As sexual harassment in public is one of the priorities of our Programme for Government and Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Strategy 2022-26, we are also continuing our wider work in this area through the blueprint delivery model which includes a specific workstream on sexual harassment in all public spaces.

**Financial Implications: The costs of creating a new Wales offence would be explored as part of the normal consideration of any new legislation.**

**Jane Hutt AS/MS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Ministry
of Justice

**Lord Bellamy KC**
Parliamentary Under-Secretary of State for
Justice

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** ADR104770

12 th June 2023

Dear Mr. Irranca-Davies,

**EVIDENCE TO THE LEGISLATION, JUSTICE AND CONSTITUTION COMMITTEE**

Thank you for your letter of 11 April. I am grateful to you for sharing the evidence you have received from stakeholders who have an interest in, or work in, the justice system in Wales.

I shall take the topics they raised with you in turn.

Accessibility of digital court services

His Majesty's Courts and Tribunals Service (HMCTS) is committed to designing and delivering inclusive services. Where possible, HMCTS 'designs out' barriers that users may face and, where it cannot, develops support so users can access its services.

Under the Reform programme, many HMCTS services have moved online. Whilst it is important HMCTS modernise and digitise the justice system, it is also fundamental that no one is disadvantaged in this process. As a response to this, HMCTS are committed to improving their paper forms and provide a Digital Support Service, helping users who lack the digital skills, confidence or tools to access and complete online applications. The National Digital Support Service has been live since 1 June 2022, supporting users throughout England, Wales and Scotland through either remote or face-to-face appointments. The Service is provided by 'We are Digital' and their partnership network. HMCTS currently support users to complete their online applications in the Single Justice Service, Social Security and Child Support, Online Civil Money Claims, Divorce and Probate and aim to expand in other services in the coming year.

**T** 020 3334 3555
**F** 0870 761 7753
**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Disaggregation of data

Data collection, disaggregation and analysis are vital for the proper administration of justice. The Ministry of Justice already collects and, where possible, disaggregates a large volume of data in Wales. The Criminal Justice Delivery Data Dashboard is one example of this.

We are considering whether additional data can be collected and disaggregated. My officials have had discussions with the Welsh Government regarding areas in which the Welsh Government believe Wales-specific data is not currently available. I hope to be able to discuss this with the Counsel General in due course. We seek to fill any gaps in data collection and disaggregation that could aid the effective administration of justice in Wales.

Remote hearings

We are committed to making remote hearings as accessible as we can, but we recognise that attending a hearing remotely will not always be appropriate. The option to hold a remote hearing is at the discretion of the judge, who will decide if it is appropriate, taking into account the needs of the parties involved. HMCTS are looking to improve the way they support people with disabilities, to make sure they can access HMCTS services without barriers. This will include checking whether video hearings are appropriate.

Research forms an integral part of our commitment to accessible and inclusive services. Recent research on Crown Court remote hearings suggests outcomes remain the same when remote hearings are used. We intend to evaluate the Video Hearings Service, building upon an evaluation published in 2021 which explored the use of remote hearings during the Covid-19 pandemic. The Ministry of Justice is also conducting a study to understand the experiences of particularly vulnerable groups with different legal needs across the administrative (i.e. tribunals), family, civil, and criminal jurisdictions. The study is looking both at people who do and who do not interact with our services, to explore what would help the latter access our services. We have also commissioned an evaluation of the HMCTS National Digital Support Service. The evaluation aims to understand users' perceptions and experiences of the service in order to assess what is working well and for whom, as well as identifying areas for improvement to best support our users in the future. More information on the various evaluation projects can be found at **HMCTS Reform MOJ Evaluation: Progress Report - GOV.UK (www.gov.uk).**

Recruitment, retention and the career development of individuals from Black, Asian and other minority ethnic groups within the legal profession

The legal profession in England and Wales is independent of Government. Statutory responsibility for encouraging a diverse legal profession sits with the approved regulators, overseen by the oversight regulator, the Legal Services Board (LSB).

The LSB has a broad programme of work aimed at encouraging a diverse workforce, including guidance for legal services regulators, research on the experiences of legal professionals from different backgrounds, and initiatives designed to address counter-inclusive practices that act as barriers to underrepresented groups.

In terms of recruitment, new education pathways introduced by regulators have been designed to enhance access to the profession for underrepresented groups, for example the recently introduced

Solicitors Qualifying Examination and Chartered Institute of Legal Executives (CILEX) Professional Qualification.

The sector is also undertaking work to improve diversity at the Bar. For instance, the Bar Council's Accelerator Programme aims to break down barriers and obstacles that prevent minority groups from progressing at the Bar. Additionally, last year the Bar Standards Board published a three-year Equality and Diversity Strategy outlining how it aims to hold the Bar to account for reducing racial and other inequalities across the profession and also how it aims to promote a culture of inclusion at the Bar and in legal services more generally.
With regards to retention and career development, we are exploring what can be done to make duty solicitor work easier for those with caring responsibilities and have asked the Criminal Legal Aid Advisory Board to investigate the disparities in criminal lawyers' income linked to gender and race.

<u>Levels of trust in the criminal justice system, especially among Black, Asian, and other minority ethnic communities</u>

We recognise that there is more we can do to collect better data on minority ethnic communities. The Government introduced the landmark Victims and Prisoners Bill to Parliament on 29 March 2023. The Bill requires criminal justice bodies and Police and Crime Commissioners to keep compliance with the Victims' Code under review. This duty will help to build a better picture of whether victims are accessing the services they are entitled to and it will help drive any necessary improvement, building transparency and trust in the system.

In September 2022, the Criminal Justice Board for Wales published a Criminal Justice Anti-Racism Action Plan for Wales setting out shared commitments which all criminal justice organisations in Wales will deliver against. At the same time, an Independent Oversight and Advisory Panel was launched. This is made up of 12 people from diverse backgrounds with a range of expertise and lived experiences of the criminal justice system and racial injustice. The Panel will support the Board, to test if the work is resulting in real change within communities and help to build trust among minority ethnic people and increase transparency. The Board is developing a race disparity dashboard to improve transparency around minority ethnic representation within the workforce across the criminal justice system and to support identification and examination of disparity and disproportionality of outcomes in the system for people from a minority ethnic background.

<u>Monitoring capacity in the legal aid market</u>

The Legal Aid Agency (LAA) monitors capacity in the legal aid market and produces a capacity review every quarter which details the number of legal aid providers, their locations, and their areas of expertise across the different categories of law covered by legal aid contracts. The LAA engages with Ministry of Justice policy colleagues and Ministers to explain challenges and agree options and operational approaches to service provision issues, including running additional tender exercises to address any gaps in provision.

<u>The "jagged edge"</u>

I recognise the distinction being made by Professor Emyr Lewis regarding the "jagged edge" in your letter. However, with regard to your point about the practical difficulties created by the "jagged edge", as I said in my letter of 14 March we do not believe there are significant practical difficulties and, in fact, reserved authorities and devolved authorities work extremely effectively together to deliver the services for which they are responsible.

Furthermore, I can assure you and the Committee that the Ministry of Justice engages regularly and proactively with HM Treasury to stress the importance of the justice system in Wales and England.

I talk regularly to the Welsh Government's Counsel General and Minister for the Constitution. My officials do the same with their counterparts in the Welsh Government.

Yours sincerely

Christopher Bellamy

**LORD BELLAMY KC**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Yr Arglwydd Bellamy CB
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

28 Ebrill 2023.

Annwyl Arglwydd Bellamy,

**Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:**
**Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol**

Ymhellach i'n llythyr dyddiedig 9 Mawrth yn atodi copi o'n hadroddiad ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, rydym bellach wedi cael ymateb Llywodraeth Cymru ac mae copi ohono wedi'i atodi er gwybodaeth. O ystyried eu perthnasedd i'ch portffolio chi, byddem yn croesawu cael eich sylwadau mewn perthynas â'r argymhellion a ganlyn a'r sylwadau dilynol gan Lywodraeth Cymru:

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

**Argymhelliad 8:** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod.

Trefnwyd dadl yn y Senedd ar ein hadroddiad ar gyfer dydd Mercher 24 Mai a byddem yn ddiolchgar felly i gael ymateb erbyn canol dydd ar 17 Mai os yn bosibl.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Yr Arglwydd Bellamy CB
Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

11 Ebrill 2023

Annwyl Arglwydd Bellamy,

Tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2023 mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2022 yn dilyn eich ymddangosiad gerbron fy Mhwyllgor ar 5 Rhagfyr 2022.

Fel yr eglurais yn fy llythyr blaenorol, gwnaethom geisio tystiolaeth ein rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y system gyfiawnder yng Nghymru neu sy'n gweithio ynddi ar y dystiolaeth a ddarparwyd gennych; rwyf wedi defnyddio'r dystiolaeth a gawsom yn fy ymateb isod.

Rwyf yn ddiolchgar i chi am ddarparu amlinelliad o gynnydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder tuag at ymateb i argymhellion Comisiwn Thomas. O ran hygyrchedd gwasanaethau llysoedd digidol, tynnodd Race Council Cymru ein sylw at waith ymchwil sy'n awgrymu ei bod yn bosibl bod y newid i wasanaethau cyngor ar-lein yn ystod pandemig Covid-19 yn rhoi grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol dan anfantais. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am y camau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad yw newid i wasanaethau o'r fath yn rhoi grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol dan anfantais.

Mae'n galonogol eich bod yn nodi pwysigrwydd data fel sylfaen i benderfyniadau ynghylch y system gyfiawnder, ond mae'n siom i'r Pwyllgor glywed nad ydych yn ymwybodol o unrhyw feysydd lle mae angen dadgyfuno data ymhellach er mwyn gwella canlyniadau. Ers i Gomisiwn Thomas gyflwyno ei adroddiad, mae'r mater o ddadgyfuno rhywfaint o ddata am y system gyfiawnder yng Nghymru wedi cael ei godi gan Lywodraeth Cymru, academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd ac mewn dadl ddiweddar yn Neuadd San Steffan. Mae'n glir bod y mater yn dal i fod yn destun pryder. Byddem yn


Senedd Cymru
Welsh Parliament

ddiolchgar, felly, pe gallech rannu'r rhestr y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu â chi o feysydd lle nad yw data sy'n benodol i Gymru yn cael eu cyhoeddi, ac egluro pa rwystrau sy'n eich atal rhag cyhoeddi data o'r fath fel mater o drefn.

Cododd Race Council Cymru dystiolaeth hefyd o rwystrau sy'n wynebu pobl anabl sy'n ceisio cael mynediad at gyfiawnder, a thystiolaeth y gallai moderneiddio llysoedd – gan gynnwys cyflwyno gwrandawiadau o bell yn gyflym – effeithio'n negyddol ar gyfranogiad rhai grwpiau penodol. Byddwn yn ddiolchgar o wybod a ydych wedi cynnal, neu a ydych yn bwriadu cynnal, ymchwil fanylach i'r materion hyn.

Rhannodd Race Council Cymru â ni hefyd ei asesiad bod rhwystrau yn parhau o ran recriwtio, cadw a datblygu gyrfaoedd unigolion o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y proffesiwn cyfreithiol, a bod lefelau llesiant staff yn is ymhlith y grwpiau hynny. Soniodd hefyd am lefelau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol:

> *"... mistrust among Black, Asian, and Minority Ethnic communities often stems from the evidence and/or experience of unequal treatment in the CJS. Trust should therefore be (re)built as outcomes improve, with the entire programme of work to tackle race disparity trained on this objective. However, given the systemic nature of the reforms and the need to unpick historical relationships with the CJS, it may take some time for improved outcomes to have the desired impact on trust."*

Yn ogystal, mae'n nodi bod tystiolaeth y gall profiadau neu ganlyniadau menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a menywod sy'n wladolion tramor fod yn dra gwahanol ar rai camau yn y system cyfiawnder troseddol o'u cymharu â phrofiadau a chanlyniadau troseddwyr eraill, ac y gall y rhain amrywio yn ôl crefydd a diwylliant.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech hefyd nodi'r camau yr ydych yn eu cymryd:

- i helpu unigolion o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i oresgyn rhwystrau o ran recriwtio, cadw a datblygu gyrfaoedd yn y proffesiwn cyfreithiol;
- i gynyddu lefelau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; ac
- i leihau unrhyw wahaniaethau ym mhrofiadau'r cymunedau hynny o'r system cyfiawnder troseddol, o'u cymharu â phrofiadau cymunedau eraill.

Mae'n galonogol deall eich bod yn ymchwilio i opsiynau i wella profiad pobl sy'n defnyddio Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theuluol Caerdydd, yng ngoleuni'r pryderon niferus a glywsom am gyflwr y ganolfan. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariadau amserol i ni ar sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfranogwyr o'n gwaith ymgysylltu, wedi codi pryderon ynghylch hygyrchedd a dirywiad adeiladau llysoedd, yn ogystal â phrofiad cymysg o

gyfiawnder o bell. Yn yr un modd, mae Race Council Cymru yn galw am gyllid digonol ar draws y system gyfiawnder a mwy o ffocws ar ymyrraeth gynnar a gwyro pobl oddi wrth y system.

Mae Race Council Cymru hefyd yn nodi bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn monitro capasiti yn y farchnad cymorth cyfreithiol a'r ddarpariaeth o wasanaethau, ac yn gweithredu pan fydd bylchau'n ymddangos. Mae wedi gofyn i ni geisio eglurder gennych ynghylch sut y mae'r gwaith monitro hwn yn cael ei wneud, a pha fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau cysondeb yn gyffredinol; byddai'n diddorol iawn gennyf glywed eich ymateb.

Yn olaf, rhannodd yr Athro Emyr Lewis o Brifysgol Aberystwyth ei farn am y sylwadau a wnaed gennych yn ystod y sesiwn dystiolaeth mewn perthynas â'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel ymyl bylchog system cyfiawnder troseddol Cymru. Dywedodd:

> *"Nid oes modd cymharu anawsterau gweithio ar draws (1) ar y naill law y ffin rhwng adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog a rhai Llywodraeth ddatganoledig, ac (2) ar y llall y ffin rhwng gwahanol adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog yn unig. Yn y pen draw, mae adrannau Llywodraeth ganolog oll yn atebol i'r un awdurdod ac o dan ei reolaeth weithredol yn y pen draw – sef y Prif Weinidog a'r Cabinet yn Llundain – ac mae ganddynt yr un grym a'r un* locus standi *â'i gilydd. Mae hynny'n galluogi cydlynu polisi a gweithredu ac hefyd sicrhau bod unrhyw anghydfodau yn medru cael eu datrys yn ddi-ffwdan. Ar y llaw arall, mae adrannau datganoledig yn atebol i Brif Weinidog Cymru a'r Cabinet yng Nghymru ac o dan eu rheolaeth weithredol yn y pen draw. Nid oes ganddynt unrhyw rym yn ganolog ac eithrio i geisio dylanwadu a dwyn perswâd. Y diffyg cymesuredd hwn o ran grym yw un o brif ffynonellau'r anawsterau ymarferol y mae'r ymyl ysgythrog yn eu creu. Ar ben hynny wrth gwrs, y y pen draw mae atebolrwydd democrataidd Llywodraeth Llundain i Senedd y Deyrnas Gyfunol tra bo atebolrwydd Llywodraeth Caerdydd i Senedd Cymru."*

Fel Pwyllgor, credwn fod angen i lawer mwy gael ei wneud i oresgyn yr anawsterau ymarferol a grëir gan yr ymyl bylchog sy'n bodoli o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r anawsterau hyn wedi bod yn destun dadansoddiad arbenigol a huawdl yr Athro Lewis a sylwedyddion hyddysg ac adnabyddus eraill ym maes gweithrediad y system gyfiawnder. Rydym, felly, yn pwysleisio wrthych bwysigrwydd parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, a gweithio'n rhagweithiol gyda'r Trysorlys, i ddod o hyd i ffyrdd o rannu adnoddau'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau dull adeiladol ar y cyd i oresgyn rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn amharu ar y canlyniadau buddiol y byddem i gyd am weud gweld o fewn system gyfiawnder Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Eitem 5.4

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/1185/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai a oedd yn nodi nifer o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd yr ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad

## Ymateb i Gwestiynau a ofynnwyd yn llythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig Mai 25 2023 at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Hygyrchedd:

1. **Ym mis Medi 2021, fe wnaethom argymell yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Amgylchedd y dylai Bil amgylcheddol yn y dyfodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion datganoledig ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU, ar ôl ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r Bil yn cynnwys materion sy'n berthnasol i Fil Amgylchedd y DU ac, os felly, sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad?**

Mae fframwaith cymhleth o gyfraith amgylcheddol ac mae rhywfaint ohono'n perthyn i'r cyfnod cyn datganoli. Drwy ein camau gweithredu ar y Bil hwn, ac yn fwy cyffredinol, rydym wedi cymryd camau i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru. Rwyf yn ymwybodol o'r argymhelliad yn Adroddiad Medi 2021 a'n cytundeb i'w dderbyn mewn egwyddor. Nid yw hynny wedi newid.

Mae'r gwaith o baratoi a chynllunio ar gyfer y Bil wedi bod yn mynd rhagddo ers amser maith, a chyn mis Medi 2021. Nod y Bil yw cyflawni'r ymrwymiadau polisi ansawdd aer yn ein Rhaglen Lywodraethu a'n Cynllun Aer Glân i Gymru. Mae'r Bil hefyd yn bwrw ymlaen â llawer o gynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân a oedd yn destun ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021.

Mae ein Bil yn diwygio nifer cyfyngedig o ddarpariaethau a fewnosodwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995 gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae hyn yn cynnwys y diwygiad i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol, felly rydym yn adolygu deddfwriaeth Cymru yn Neddfau'r DU yn gyson. Fodd bynnag, byddai ymgorffori'r darpariaethau y rhoesom gydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn ein Bil yn creu risg o ddull gweithredu tameidiog iawn.

2. **Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaed y sylwadau a ganlyn gennych chi a'ch swyddogion:**

***"it's a Bill that's intended to fit into other legislation—the attempt to do that in this Bill would have caused ripples across the other legislation in a way that was less than helpful and might actually make the Bill less accessible. So, I understand the sentiment of what you're saying entirely, but, as I understand it, you'd then have to look at the interaction between this and various environment Acts and so on, and then the ripples of that would start to go out and you'd start to be looking at a very different Bill." [Cofnod y Trafodion 37].***

***“in this case, the Bill has got a particular focus, and to carve out parts of the body of environmental law and put them elsewhere—our view is that that results in a partial retelling of the story about air quality, for legislation about air quality. You mentioned the Clean Air Act 1993; taking out Part 3 of that takes it out of its context with other Parts of that Act that are about air quality. So, yes, overall, the view was that it wouldn't improve accessibility of law in this instance to just take those bits out.” [Cofnod y Trafodion 38]***

***“the environment Act … is replete with Secretary of State for England things, which also then apply to Wales. So, it's quite complicated. I defer to the lawyers, and, actually, I'm in awe of who on earth worked their way through this.” [Cofnod y Trafodion 46]***

***“It didn't seem necessary or optimal in any way to transfer the entire framework, only to say, 'It's exactly the same, apart from these little bits', really. So, it's part of the same conversation. We've been trying to limit the Bill that this committee is now scrutinising, and, obviously, the policy committees have scrutinised as well, to its own parameters. We've been very clear that it's not an all-encompassing Bill, and a lot of what you're talking about would stretch it back out into starting to take in a whole pile of other things. So, I'm afraid it's part of the same issue, isn't it? And then, for me, there's a big issue about implementation, so do we have to spend the next two years doing consequential amendments before the thing is implementable? I didn't want to get into that. And also, you start to have what should be a fairly straightforward Bill taking up two thirds of the legal resource of the Welsh Government.” [Cofnod y Trafodion 54]***

**A. Sut mae’r sylwadau am hygyrchedd yn gyson â’r ffaith y bydd deddfwriaeth ar ansawdd aer yn awr yn cael ei nodi mewn un Ddeddf Gymreig a dwy Ddeddf sy’n cwmpasu Cymru a Lloegr?**

Rydym wedi gwneud rhywfaint o ddarpariaeth annibynnol, ond gellid cyflawni llawer o nodau’r Bil drwy ddiwygio deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes.

Mae ffocws penodol i’r Bil hwn. Wrth ystyried sut i fynd ati i ddrafftio, roeddem o’r farn y byddai cydgrynhoi’r ddeddfwriaeth y mae’r Bil yn ei diwygio a’i hategu yn arwain at ailadrodd y stori am ansawdd aer yn rhannol. Gallai hyn fod yn niweidiol i hygyrchedd y gyfraith.

Mewn rhai achosion, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau rheoli ansawdd aer yn lleol, cymharol fach yw’r diwygiadau sy’n cael eu gwneud gan y Bil hwn. Gallai ailddatgan cyfran fawr o’r ddeddfwriaeth wrth wneud diwygiadau o’r fath arwain at ddryswch.

Byddai cynhyrchu Bil i gydgrynhoi’r holl ddeddfwriaeth ansawdd aer sy’n berthnasol i Gymru wedi bod yn broses hir a rhaid cael cydbwysedd rhwng yr angen am gydgrynhoi a’r angen i roi darpariaethau’r Bil hwn ar waith cyn gynted â phosibl.

**B. Rydym yn aneglur pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio’r Bil i ddiweddaru, gwella a symleiddio elfennau o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ymwneud ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Er enghraifft, mae Ansawdd Aer wedi'i gynnwys yn Neddf yr Amgylchedd 1995 mewn 11 adran (Rhan 4 o’r Bil). Pam na ellid trosi’r darpariaethau hunangynhwysol hyn i’r Bil hwn a’u diweddaru lle bo angen?**

Fel y nodwyd uchod, credwn y gallai ailddatgan cyfran fawr o ddeddfwriaeth ar yr un pryd â gwneud diwygiadau penodol a gweddol gynnil fod yn ddryslyd, ac y byddai'n golygu ailadrodd stori ansawdd aer yn rhannol.

**C. A gafodd y penderfyniad i beidio â chydgrynhoi cyfraith ansawdd aer mewn un Bil ei ddylanwadu gan y cyfyngiadau capasiti ac adnoddau y gwnaethoch gyfrannu atynt?**

Fel y nodwyd yn glir yn ystod sesiwn y Pwyllgor, mae'n rhaid ystyried y goblygiadau o ran adnoddau wrth ddechrau ar broses Bil. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad yn deillio o asesiad o'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes a natur y diwygiadau yr oeddem yn ceisio eu gwneud.

**3. O ystyried na chaniateir i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil gael eu gosod tan y Seithfed Senedd, pam na chyflwynwyd Bil amgylcheddol mwy hollgynhwysol a chynhwysfawr ar ansawdd aer tan yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd, a allai fod wedi sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a bod yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?**

Mae'r Bil yn gynhwysfawr. Bydd ei ddarpariaethau, pan fyddant ar waith, yn arwain at welliannau amlwg yn yr amgylchedd aer, o ran ansawdd aer a seinweddau. Rydym mewn argyfwng hinsawdd a natur. O ganlyniad, rhoddwyd blaenoriaeth i gyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhymor y Senedd hon er mwyn gallu craffu ar ei ddarpariaethau a phasio'r Bil, gobeithio, i'n galluogi i fwrw ymlaen i'w roi ar waith.  Byddai oedi cyn cyflwyno yn arwain at oedi cyn gweithredu, ac ni chredaf fod unrhyw un o'n rhanddeiliaid wedi eirioli dros hynny.

Hefyd, ni fyddai oedi cyn cyflwyno'r Bil yn effeithio ar ei ddarpariaethau. Am resymau yr wyf wedi'u hamlinellu, ni chaiff targedau eu gosod ar wyneb y Bil. Mae angen eu gosod mewn rheoliadau er mwyn inni gael yr hyblygrwydd i'w diwygio a'u diweddaru yn unol â thystiolaeth a chyngor gwyddonol.

Rydym yn blaenoriaethu gwaith i osod targed ar gyfer PM2.5 sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn achosi'r niwed mwyaf i iechyd.  Mae llawer iawn o waith cymhleth i'w wneud i osod targed ymestynnol ond cyraeddadwy, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a thystiolaeth a chyngor arbenigol. Dyna pam ein bod wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed o fewn 3 blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

Ochr yn ochr â hyn, mae ail gam o waith eisoes yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau targed ar gyfer y llygryddion eraill sy'n rhan o ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ac amonia. Mae rhagor o waith i'w wneud mewn perthynas â'r llygryddion hynny, ac felly rydym yn gweithio o fewn amserlen hirach. Mae swyddogion yn rhag-weld y byddant mewn sefyllfa i ddarparu cyngor cychwynnol i Weinidogion ar gynigion targed ar gyfer y llygryddion eraill hyn erbyn haf 2025. Bydd camau gweithredu yn y dyfodol wedyn yn dibynnu ar ystyriaeth Weinidogol bryd hynny.

## Ansawdd Aer – Targedau Cenedlaethol

**4. A fyddech cystal â chrynhoi'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth am y targedau ansawdd aer presennol a'r sail y'u gosodwyd arnynt?**

Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar ansawdd aer yng Nghymru a'r DU yn deillio ar hyn o bryd o gymysgedd o ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol, ac mae'n cynnwys tair prif elfen:

1. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio crynodiadau llygryddion mewn aer amgylchynol – Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am adrodd ar amrywiaeth o fathau o dargedau llygredd ac am gydymffurfio â nhw. Er enghraifft, mae llygryddion sydd â thargedau yn cynnwys nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, sylffwr deuocsid, osôn ar lefel y ddaear a metelau trwm. Roedd y targedau'n seiliedig ar ddadansoddi a negodi ar lefel yr UE, a chafodd dadansoddiad economaidd o'r costau a'r manteision yn y DU ei gynnal gan Lywodraeth y DU.

2. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio cyfanswm allyriadau cenedlaethol pum llygrydd aer (nitrogen ocsid, sylffwr deuocsid, cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn cynnwys methan, mân ddeunydd gronynnol ac amonia) – Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 a Phrotocol Gothenburg i Gonfensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pell. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am adrodd ar a chydymffurfio â thargedau y cytunir arnynt ar lefel y DU;

3. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio allyriadau o ffynonellau penodol, fel allyriadau diwydiannol i'r aer a llosgi domestig, gan gynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Deddf Aer Glân 1993.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n rhagflaenu llawer o Gyfarwyddebau'r UE y deilliodd llawer o'r ddeddfwriaeth uchod ohonynt, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas ag ansawdd aer. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'r broses hon yn mynnu bod awdurdodau lleol yn adolygu ac yn asesu ansawdd yr aer, gan gynhyrchu cynlluniau gweithredu lle canfyddir bod ansawdd yr aer yn wael ac mewn perygl o dorri amcanion ansawdd aer. Roedd y safonau (lefelau) yn seiliedig ar waith Panel Arbenigol Safonau Ansawdd Aer Llywodraeth y DU a grwpiau arbenigol eraill.

Ar wahân i'r ddeddfwriaeth hon, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ymchwilio i gwynion ynglŷn â mwg sy'n achosi niwsans, mygdarth, arogleuon a llwch gan aelodau o'r cyhoedd dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**5. Beth mae'r Bil hwn yn eich galluogi i'w gyflawni ar dargedau ansawdd aer na allwch ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol?**

Mae'r Bil yn adeiladu ar bŵer gwneud rheoliadau eang iawn yn Adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ansawdd aer a allai gynnwys gosod targedau tymor hir neu dymor byr mewn perthynas ag ansawdd aer.

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar hyn drwy ddarparu pwerau penodol, yn hytrach na rhai cyffredinol, i osod targedau hirdymor a dyletswydd i osod targed mewn perthynas â PM2.5 yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.

Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynhyrchu targedau a dyletswyddau penodol sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cael ac yn cyhoeddi data ansawdd aer data ansawdd aer y maent yn credu sy'n angenrheidiol i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau hyn. Rhaid adolygu targedau ac adrodd arnynt hefyd.

Felly, drwy'r Bil, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno mesurau sy'n cryfhau ac yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol presennol; gan osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru lle nad oes rhai'n bodoli ar hyn o bryd.

Bydd darpariaethau'r Bil yn sicrhau nid yn unig bod targedau'n cael eu gosod ond bod Llywodraeth bresennol Cymru a llywodraethau yn y dyfodol yn cael eu dwyn i gyfrif ynghylch y targedau hyn.

**6. Sut bydd Rhan IV, Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda Rhan 1 o'r Bil? Yn benodol, sut y bydd adrannau 1 a 2 o'r Bil yn rhyngweithio ag adran 87 o Ddeddf 1995 (Rheoliadau at ddibenion Rhan IV)?**

Mae adran 87 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau eang sy'n berthnasol i reoliadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Mae adran 87 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag ansawdd aer.

Bydd Adran 87 yn ategu Rhan 1 o'r Bil, yn enwedig y pwerau a'r dyletswyddau newydd ac ehangach yr ydym wedi'u cymryd yn adrannau 1 a 2. Mae'n bosibl y bydd rheoliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio pwerau yn adran 87 ac adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil.

Fel y nodir uchod mewn perthynas â chwestiwn 5, mae'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r darpariaethau yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Felly, mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi'i gryfhau drwy gymryd y pwerau a'r dyletswyddau newydd hyn.

**7. Mae Adran 1 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Pam bod angen pŵer mor eang?**

Mae'n rhan o fframwaith sy'n pennu pwerau Gweinidogion Cymru i osod targedau hirdymor. Mae'n cael ei ategu gan y dyletswyddau ychwanegol a nodir yn adran 3 (sy'n pennu'r broses gosod targedau), adran 4 (effaith targedau), adran 5 (adrodd), adran 6 (adolygu) ac adran 7 sy'n gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer casglu data ansawdd aer i fonitro'r cynnydd tuag at gyrraedd targedau a osodir o dan y Bil.

Fel y nodir uchod yn yr ymateb i gwestiwn 5, mae'r pwerau a'r dyletswyddau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r pwerau a'r dyletswyddau presennol a roddir ar Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ansawdd aer, ac yn eu hategu.

Mae'r pŵer yn adran 1, ac yn fwy cyffredinol yn Rhan 1 yn adlewyrchu natur uchelgeisiau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn.

**8. Pam nad oes diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil?**

Nid yw ansawdd aer wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, nid oes diffiniad o ansawdd aer yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Yn yr un modd, nid yw wedi'i ddiffinio yn Neddf yr Amgylchedd 2021. Bwriedir i'r ymadrodd gael ei ystyr arferol ac felly nid oes angen diffiniad.

**9. Os yw ansawdd aer yn cael ei ystyried fel ystyr cyffredin, beth yw'r ystyr cyffredin hwnnw yn eich barn chi?**

Mae ansawdd aer yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pa mor llygredig yw'r aer yr ydym yn ei anadlu. Pan fydd ansawdd yr aer yn wael, gall llygryddion yn yr aer fod yn beryglus i'r amgylchedd ac i bobl, yn enwedig pobl â chyflyrau ar yr ysgyfaint neu'r galon. Gall llygryddion gael eu rhyddhau o ffynonellau artiffisial neu naturiol.

**10. Er mwyn deall sut y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r canlynol:**

**A. A oes unrhyw faterion yng Nghynllun Aer Glân Cymru na fyddent yn dod o dan y pŵer i wneud rheoliadau?**
**B. Pa faterion, os o gwbl, y tu allan i Gynllun Aer Glân Cymru y gellid mynd i'r afael â nhw gan y pŵer i wneud rheoliadau?**
**C. A oes unrhyw ddiwydiannau, cyrff neu safleoedd na allai fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1?**
**D. A ellid defnyddio rheoliadau o dan adran 1 i reoli materion yn ymwneud ag ansawdd aer megis, er enghraifft, niwsans cyhoeddus neu arogleuon?**

Mae'r pŵer yn adran 1 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru.

Pwrpas unrhyw dargedau ansawdd aer newydd yw lleihau'r niwed a achosir drwy ddod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael i iechyd pobl, natur a'r amgylchedd. Ochr yn ochr â darparu lefel 'sylfaenol' o ansawdd aer ledled Cymru, rydym hefyd am i dargedau sbarduno gwelliant parhaus hirdymor i leihau amlygiad i lygredd ar yr un pryd â chynyddu'r manteision cysylltiedig i'r eithaf.

Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu, sy'n mynd y tu hwnt i osod rheoliadau. Er enghraifft, hyrwyddo newid diwylliannol i sicrhau gwelliannau i ansawdd aer drwy ddulliau fel codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd aer. Felly, mae camau gweithredu yn y Cynllun sydd y tu hwnt i gwmpas pŵer gwneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae diben y targedau ansawdd aer y gellir eu gosod o dan adran 1 yn gwbl gyson â nod cyffredinol y Cynllun, sef gwella ansawdd aer yng Nghymru.

O ran diwydiannau, cyrff neu safleoedd na allent fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1, Gweinidogion Cymru fyddai'n ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1. Gweinidogion Cymru sy'n gorfod sicrhau (yn unol ag adran 4(1)(a)) bod targedau a osodir o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu cyrraedd. Bydd rheoliadau o dan adran 1 yn gosod targedau sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Ni fyddant yn benodol i ffynhonnell, hy ni fyddant yn nodi diwydiannau,

cyrff na safleoedd penodol. Camau gweithredu a gymerir y tu allan i'r rheoliadau a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl cyflawni'r targedau.

Ni ddatblygwyd y pŵer i wneud rheoliadau i reoli materion sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus ac arogleuon. Bydd yn gosod targedau hirdymor (i'w cyflawni o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad gosod y targed) ar gyfer gwella ansawdd aer. Mae deddfwriaeth bresennol sy'n ymdrin â niwsans ar gyfer materion sy'n cynnwys allyriadau mwg, llwch, nwyon ac arogleuon, a nodir, er enghraifft, yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**11. Pryd y bydd rheoliadau o dan adran 1 yn cael eu gosod gyntaf, a pham nad oes cyfnod terfyn ar gyfer gosod y set gyntaf o reoliadau (fel sydd ar gyfer rheoliadau o dan adran 2)?**

Rydym yn bwriadu gosod rheoliadau sy'n gosod targed ar gyfer mân ddeunydd gronynnol (PM2.5) cyn pen 36 mis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae hwn yn derfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith paratoi pwysig i wneud pethau'n iawn, nid nod.

Mae gennym safonau ansawdd aer presennol sy'n parhau i fod mewn grym yng Nghymru, gan ddarparu parhad a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ystod o ganllawiau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth ddatblygu cynigion targed newydd, ochr yn ochr â dadansoddiad, tystiolaeth a chyngor arbenigol annibynnol ar amrywiaeth o ffactorau.

Fel y nodwyd mewn perthynas â chwestiwn 3 uchod, rydym yn blaenoriaethu gwaith i osod targed ar gyfer PM2.5 sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn achosi'r niwed mwyaf i iechyd. Mae llawer iawn o waith cymhleth i'w wneud i osod targed ymestynnol ond cyraeddadwy, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a thystiolaeth a chyngor arbenigol. Dyna pam ein bod wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed o fewn 3 blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

Ochr yn ochr â hyn, mae ail gam o waith eisoes yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau targed ar gyfer y llygryddion eraill sy'n rhan o ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ac amonia. Mae rhagor o waith i'w wneud mewn perthynas â'r llygryddion hynny, ac felly rydym yn gweithio o fewn amserlen hirach. Mae swyddogion yn rhag-weld y byddant mewn sefyllfa i ddarparu cyngor cychwynnol i Weinidogion ar gynigion targed ar gyfer y llygryddion eraill hyn erbyn haf 2025. Bydd camau gweithredu yn y dyfodol wedyn yn dibynnu ar ystyriaeth Weinidogol bryd hynny.

Rydym am i dargedau fod yn uchelgeisiol, yn hygred, yn gost-effeithiol ac yn cael eu cefnogi gan gymdeithas. Felly, mae'n hanfodol bod arbenigwyr a rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses hon er mwyn sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu, ei harchwilio a'i phrofi'n briodol.

**12. Dywed adran 2(4) y gall rheoliadau sy'n pennu targed ansawdd aer PM2.5 wneud darpariaeth sy'n diffinio "aer amgylchynol". Pam mai dim ond i dargedau ansawdd aer PM2.5 y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol a pham y caiff ei ddiffinio mewn rheoliadau yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil?**

Mae adran 1 yn creu pŵer cyffredinol i osod targedau hirdymor mewn perthynas ag ansawdd aer. Efallai na fydd y targedau hyn yn cael eu gosod bob amser mewn perthynas â lefel y llygryddion penodol mewn aer amgylchynol. Er enghraifft, gellid gosod targedau ar gyfer cyfanswm allyriadau llygrydd aer yng Nghymru. Felly, nid oes

sicrwydd y bydd y cysyniad o “aer amgylchynol” yn berthnasol i’r dibenion hyn ac oherwydd na ddefnyddir y term yn adran 1, nid oes angen ei ddiffinio yn adran 1.

Ar y llaw arall, mae adran 2 yn cynnwys pŵer i greu math penodol iawn o darged mewn perthynas â lefelau deunydd gronynnol yn yr aer amgylchynol. Felly, mae angen diffinio’r hyn a olygir gan “aer amgylchynol”. Mae’r diffiniad hwn yn cael ei adael i’w nodi mewn rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gael digon o hyblygrwydd i osod targed priodol, ac yn wir i allu gosod mwy nag un targed os oes angen.

## Ansawdd Data

**13. Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid a allai ymdrin â gwella data ansawdd aer (paragraff 3.82).**

**A. At ba gynlluniau cyflawni yr ydych yn cyfeirio a beth yw eu sail statudol?**

Rydym wedi cynnig gweithredu'r ddyletswydd codi ymwybyddiaeth drwy ddatblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid.

Pwrpas y cynllun cyflawni yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cyflawni ein dyletswydd yn rhagweithiol o dan y ddarpariaeth hon.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi camau gweithredu posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i'r ffordd mae data ansawdd aer presennol yn cael ei gyflwyno, a sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall. Ond gallai hefyd gynnwys mentrau sy'n ymgysylltu'n weithredol â chymunedau i wella ansawdd aer, fel gwyddoniaeth dinasyddion neu weithgareddau gwrthsegura.

Mae'n bwysig datblygu'r cynllun ar y cyd â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi darparu enghreifftiau o gamau gweithredu i ddangos yr ystod eang o weithgareddau y gallem eu gwneud wrth weithredu'r ddyletswydd hon.

**B. Pam nad oes dyletswydd statudol i gasglu data a / neu wella ei ansawdd? Sut bydd y gwaith o gasglu data ac ansawdd yn gwella o dan y Bil fel y'i drafftiwyd?**

Mae'r Bil yn cryfhau'r gofynion casglu data. Mae adran 7 yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cael y cyfryw ddata ansawdd aer yng Nghymru fel y maent yn ystyried sy'n briodol i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau a osodir o dan adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil. Rhaid cyhoeddi'r holl ddata a geir. Bydd hyn heb os yn gwella ansawdd, maint a thryloywder data ansawdd aer yng Nghymru.

Mae'r rhwydweithiau monitro ansawdd aer presennol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf asesu ac ansawdd data cadarn a nodir mewn deddfwriaeth. Mae gwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol hefyd yn cael ei ategu gan waith modelu ansawdd aer er mwyn cael darpariaeth ofodol ac amcangyfrif o'r ffynonellau llygredd sy'n cyfrannu.

Mae awdurdodau lleol yn rheoli ansawdd aer ar lefel leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol i fynd i'r afael â mannau problemus lleol. Mae hyn yn cynnwys adolygu ansawdd aer drwy ystyried polisi statudol a chanllawiau technegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Pan nodir risgiau, gellir defnyddio gwaith monitro ansawdd aer i helpu i ddeall lefelau llygredd lleol, y ffynonellau, a chydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer lleol.

Nid yw'r rhan fwyaf o waith monitro awdurdodau lleol yn rhan o'r rhwydwaith monitro cenedlaethol gan eu bod yn cyflawni diben gwahanol, gan ganolbwyntio ar fannau problemus, ac oherwydd nad ydynt, o bosibl, yn bodloni meini prawf llym rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer lleoliad ac ansawdd data.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**—**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**—**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

25 Mai 2023

Annwyl Julie,

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Diolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 15 Mai ar gyfer sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)..

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Bil yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 15 Mehefin.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ATODIAD

Hygyrchedd

Cwestiwn 1: Ym mis Medi 2021, fe wnaethom argymell yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Amgylchedd y dylai Bil amgylcheddol yn y dyfodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion datganoledig ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU, ar ôl ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r Bil yn cynnwys materion sy'n berthnasol i Fil Amgylchedd y DU ac, os felly, sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad?

Cwestiwn 2: Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaed y sylwadau a ganlyn gennych chi a'ch swyddogion:

> *"it's a Bill that's intended to fit into other legislation—the attempt to do that in this Bill would have caused ripples across the other legislation in a way that was less than helpful and might actually make the Bill less accessible. So, I understand the sentiment of what you're saying entirely, but, as I understand it, you'd then have to look at the interaction between this and various environment Acts and so on, and then the ripples of that would start to go out and you'd start to be looking at a very different Bill." [Cofnod y Trafodion 37].*

> *"in this case, the Bill has got a particular focus, and to carve out parts of the body of environmental law and put them elsewhere—our view is that that results in a partial retelling of the story about air quality, for legislation about air quality. You mentioned the Clean Air Act 1993; taking out Part 3 of that takes it out of its context with other Parts of that Act that are about air quality. So, yes, overall, the view was that it wouldn't improve accessibility of law in this instance to just take those bits out." [Cofnod y Trafodion 38]*

> *"the environment Act ... is replete with Secretary of State for England things, which also then apply to Wales. So, it's quite complicated. I defer to the lawyers, and, actually, I'm in awe of who on earth worked their way through this." [Cofnod y Trafodion 46]*

> *"It didn't seem necessary or optimal in any way to transfer the entire framework, only to say, 'It's exactly the same, apart from these little bits', really. So, it's part of the same conversation. We've been trying to limit the Bill that this committee is now scrutinising, and, obviously, the policy committees have scrutinised as well, to its own parameters. We've been very clear that it's not an all-encompassing Bill, and a lot of what you're talking about would stretch it back out into starting to take in a whole pile of other things. So, I'm afraid it's part of the same issue, isn't it?*

*And then, for me, there's a big issue about implementation, so do we have to spend the next two years doing consequential amendments before the thing is implementable? I didn't want to get into that. And also, you start to have what should be a fairly straightforward Bill taking up two thirds of the legal resource of the Welsh Government." [Cofnod y Trafodion 54]*

a. Sut mae'r sylwadau am hygyrchedd yn gyson â'r ffaith y bydd deddfwriaeth ar ansawdd aer yn awr yn cael ei nodi mewn un Ddeddf Gymreig a dwy Ddeddf sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr?

b. Rydym yn aneglur pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r Bil i ddiweddaru, gwella a symleiddio elfennau o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* ymwneud ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Er enghraifft, mae Ansawdd Aer wedi'i gynnwys yn *Neddf yr Amgylchedd 1995* mewn 11 adran (Rhan 4 o'r Bil). Pam na ellid trosi'r darpariaethau hunangynhwysol hyn i'r Bil hwn a'u diweddaru lle bo angen?

c. A gafodd y penderfyniad i beidio â chydgrynhoi cyfraith ansawdd aer mewn un Bil ei ddylanwadu gan y cyfyngiadau capasiti ac adnoddau y gwnaethoch gyfrannu atynt?

Cwestiwn 3: O ystyried na chaniateir i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil gael eu gosod tan y Seithfed Senedd, pam na chyflwynwyd Bil amgylcheddol mwy hollgynhwysol a chynhwysfawr ar ansawdd aer tan yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd, a allai fod wedi sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a bod yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

### Ansawdd aer – targedau cenedlaethol

Cwestiwn 4: A fyddech cystal â chrynhoi'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth am y targedau ansawdd aer presennol a'r sail y'u gosodwyd arnynt?

Cwestiwn 5: Beth mae'r Bil hwn yn eich galluogi i'w gyflawni ar dargedau ansawdd aer na allwch ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol?

Cwestiwn 6: Sut bydd Rhan IV, Ansawdd Aer *Deddf yr Amgylchedd 1995* yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda Rhan 1 o'r Bil? Yn benodol, sut y bydd adrannau 1 a 2 o'r Bil yn rhyngweithio ag adran 87 o Ddeddf 1995 (Rheoliadau at ddibenion Rhan IV)?

Cwestiwn 7: Mae Adran 1 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag *unrhyw fater* sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Pam bod angen pŵer mor eang?

Cwestiwn 8: Pam nad oes diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil?

Cwestiwn 9: Os yw ansawdd aer yn cael ei ystyried fel ystyr cyffredin, beth yw'r ystyr cyffredin hwnnw yn eich barn chi?

Cwestiwn 10: Er mwyn deall sut y *gellid* defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r canlynol:

a. A oes unrhyw faterion yng Nghynllun Aer Glân Cymru na fyddent yn dod o dan y pŵer i wneud rheoliadau?

b. Pa faterion, os o gwbl, y tu allan i Gynllun Aer Glân Cymru y gellid mynd i'r afael â nhw gan y pŵer i wneud rheoliadau?

c. A oes unrhyw ddiwydiannau, cyrff neu safleoedd na allai fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1?

d. A ellid defnyddio rheoliadau o dan adran 1 i reoli materion yn ymwneud ag ansawdd aer megis, er enghraifft, niwsans cyhoeddus neu arogleuon?

Cwestiwn 11: Pryd y bydd rheoliadau o dan adran 1 yn cael eu gosod gyntaf, a pham nad oes cyfnod terfyn ar gyfer gosod y set gyntaf o reoliadau (fel sydd ar gyfer rheoliadau o dan adran 2)?

Cwestiwn 12: Dywed adran 2(4) y gall rheoliadau sy'n pennu targed ansawdd aer PM2.5 wneud darpariaeth sy'n diffinio "aer amgylchynol". Pam mai dim ond i dargedau ansawdd aer PM2.5 y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol a pham y caiff ei ddiffinio mewn rheoliadau yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil?

Ansawdd data

Cwestiwn 13: Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid a allai ymdrin â gwella data ansawdd aer (paragraff 3.82).

a. At ba gynlluniau cyflawni yr ydych yn cyfeirio a beth yw eu sail statudol?

b. Pam nad oes dyletswydd statudol i gasglu data a / neu wella ei ansawdd? Sut bydd y gwaith o gasglu data ac ansawdd yn gwella o dan y Bil fel y'i drafftiwyd?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

14 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Hoffwn ddiolch ichi am eich llythyr dyddiedig 15 Mai ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bill Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) a osodais ar 24 Mawrth. Byddwch hefyd wedi gweld imi osod Memorandwm Atodol ar y Bil hwn ar 25 Mai.

Roedd eich llythyr yn ceisio ymateb i nifer o gwestiynau i helpu i lywio adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Senedd ar y Memorandwm. Mae ymateb i bob un o'ch cwestiynau yn yr Atodiad.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol, ynghyd â Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Cymal 54 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig) a chymal 56 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth)**

**Cwestiwn 1:** Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymalau 54 a 56 yn ymwneud â meysydd datganoledig – sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes – a allwch egluro pam na ddylid hefyd ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau eraill o sylwedd yn Rhan 2 o'r Bil (cymalau 46–60)?

*Ymateb:*
Mae cymalau 54 a 56 yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus i roi gwybodaeth bersonol am unigolion (yn ddarostyngedig i gydsyniad) i sefydliadau sy'n darparu Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS). Y diben yw gwneud darparu gwasanaethau dilysu digidol yn haws a gwella'r gwasanaethau a gynigir i'r defnyddiwr. Yn wahanol i gymalau eraill yn Rhan 2, nid ydynt yn ymwneud â rheoli gwasanaethau dilysu digidol.

**Cwestiwn 2:** Yn benodol mewn perthynas â chymal 56, ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar lefel y DU, ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

*Ymateb:*
Mae fy swyddogion yn ystyried a yw'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymal 56 yn briodol, am y byddai'r Cod Ymarfer canlyniadol yn berthnasol i gyrff cyhoeddus Cymru.

**Cymalau 61–77 (Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau)**

**Cwestiwn 3:** Ym mharagraff 42 o'r Memorandwm, rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 61–77 ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

*Ymateb:*
Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn ystyried a yw'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys mewn perthynas â chymalau 61–77 yn briodol, ac a fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru fod â phwerau yn y maes hwn.

**Cymal 92 (Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau)**

**Cwestiwn 4:** A wnewch chi gadarnhau ein bod wedi deall y safbwynt yn gywir a bod y gwelliannau a wnaed gan gymal 92 yn ymestyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac a wnewch chi egluro pam mae'r wybodaeth hon wedi ei hepgor o'r Memorandwm.

*Ymateb:*
Fel y mae'r Pwyllgor yn nodi, mae'r diwygiadau a wnaed gan gymal 92 yn estyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes, sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, drwy alluogi rhannu gwybodaeth er mwyn gwella darparu gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau. O ganlyniad, nid oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 24 Mawrth yn cyfeirio at y mater hwn, gan fod hwn yn bŵer sy’n cael ei addasu yn hytrach na phŵer sy’n cael ei roi.

Fodd bynnag, er cyflawnder, mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (y pŵer sy'n cael ei addasu) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith)**

**Cwestiwn 5:**
a) A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn?
b) Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y materion a gadwyd yn ôl a'r materion datganoledig yn y maes hwn?
c) A allwch roi enghraifft o sut y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a/neu gyrff cyhoeddus datganoledig gyflawni cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93?
d) A ydych chi'n ymwybodol o gytundebau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n cael eu gweithredu drwy bwerau'r Bil?
e) Gwnaethom fynegi pryderon pan oeddem yn craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal ynghylch y drefn o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i roi cytundebau gofal iechyd rhyngwladol ar waith, fel y cynigir yn y Bil hwn. Bryd hynny, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd y byddai cytundebau o'r fath yn cael eu llywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol a gâi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Bil (cawsom fersiwn ym mis Chwefror 2022). A allwch gadarnhau a fydd trefniadau rhynglywodraethol tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 o'r Bil hwn (pan gaiff y Bil ei ddeddfu, cyhyd â bod hynny'n digwydd)? A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio?
f) Pan oeddem yn trafod Confensiwn y DU/y Swistir ar gydlynu nawdd cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021, gwnaethoch esbonio nad oedd unrhyw ofynion newydd yn cael eu gosod ar fyrddau iechyd lleol Cymru i gyflawni'r trefniadau oddi tano. Beth yw eich barn ynghylch y graddau y gallai cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus Cymru gyflawni gofynion ychwanegol?

*Ymateb:*
Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y maes hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Diwygiadau 8–16 ac NC5 sy'n ymwneud â chymalau 93 a 108, ac mae ein safbwynt ar y cymalau hyn yn cael ei amlinellu ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2 a osodwyd ar 25 Mai.

Byddai diwygiadau 8–16 ac NC5 yn rhoi pwerau cydredol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddibenion rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith, mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, ar gyfer yr agweddau ar weithredu'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Fel y byddwch yn gwybod, rydym yn erbyn pwerau cydredol heb fesurau diogelu cyfansoddiadol, ac mae hwn yn fater rydym yn parhau i'w drafod â Llywodraeth y DU.

Ein dealltwriaeth ni yw bod cymal 93 yn ymwneud yn bennaf â rhaglen I-LEAP, sydd wedi cael ei dylunio yn fras i fod yn olynydd i System Wybodaeth Schengen II yr Undeb Ewropeaidd yr roedd gennym fynediad ati cyn gadael yr UE. Mae rhaglen I-LEAP wedi'i dylunio i gynyddu cydweithredu rhyngwladol drwy wella mynediad at system INTERPOL, a chynyddu'r defnydd o'r system honno. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael yma.

Mae gan y Senedd gymhwysedd i wneud darpariaeth ar gyfer erlyn troseddau a gweithredu cosbau troseddol mewn perthynas ag amrediad o faterion datganoledig fel trosedd amgylcheddol neu drosedd bywyd gwyllt. Ar sail hyn, mae'n bosibl y gallai fod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn unrhyw weithgaredd a gyflawnir drwy I-LEAP sy'n rhyngwynebu â'r meysydd hyn.

O dan y setliad datganoli presennol, yn ymarferol rydym yn disgwyl i'r diddordeb hwn fod yn weddol gyfyngedig. Nid ydym yn disgwyl iddo chwaith roi unrhyw ofynion ychwanegol nodedig ar Lywodraeth Cymru nac ar unrhyw gyrff cyhoeddus o dan y setliad datganoli presennol; yn enwedig am y byddai I-LEAP, yn fras, yn disodli set bresennol o drefniadau a oedd ar waeth pan oeddem yn rhan o'r UE.

O safbwynt cyfansoddiadol, ein barn gadarn yw y dylai'r setliad datganoli gael ei ddiogelu a chymhwysedd y Senedd gael ei barchu.

Hefyd, er mwyn paratoi ar gyfer dyfodol lle mae polisi'n cael ei ddatganoli yn unol ag argymhellion Comisiwn Silk a Chomisiwn Thomas, mae'n bwysig sicrhau bod deddfwriaeth sy'n cael ei drafftio nawr yn cael ei pharatoi ar gyfer y pwerau o sylwedd mwy rydym yn disgwyl i Weinidogion Cymru fod â nhw yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Cymal 36 (Hysbysiadau cyfweliadau)**

**Cwestiwn 6:**
A) A wnewch chi egluro a yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ac yn ffafrio’r sefyllfa hon?
b) A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd y mae cymal 36 wedi’i ddrafftio a'i effaith yng Nghymru?

*Ymateb:*
Rwy'n cytuno â'ch asesiad bod cymal 36 o'r Bil yn mewnosod adrannau 148A – 148C i Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n rhoi pwerau i'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w gwneud yn ofynnol i rai personau fynychu cyfweliad pan amheuir nad yw person yn cydymffurfio â gofynion penodol deddfwriaeth diogelu data. Hefyd, o fewn adran newydd 148B, fod is-adran (9) yn rhoi rhai cyfyngiadau ar y amgylchiadau lle y gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofyn i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad, ac yn eithrio rhai personau o gwmpasiad y pŵer.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried ein safbwynt mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, lle mai Llywodraeth Cymru yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfatebol yng Nghymru – sef gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn hollol neu'n bennaf ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau maethu a gwasanaethau mabwysiadu.

**Materion eraill**

**Cwestiwn 7:**
a) A ydych yn gallu ehangu ar y goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd hwnnw gan yr UE yn cael ei golli?
b) Os bydd y Bil yn pasio ar ei ffurf bresennol, beth yw eich barn am ei effaith ar benderfyniad digonolrwydd yr UE?
c) Pa drafodaethau rydych chi wedi’u cael â Llywodraeth y DU mewn perthynas â’r mater hwn?

*Ymateb:*
Ynghylch pwynt a, mae digonolrwydd data yn cyfeirio at bŵer y Comisiwn Ewropeaidd i benderfynu, ar sail erthygl 45 o Reoliad (UE) 2016/679, a yw gwlad y tu allan i'r UE yn cynnig lefel ddigonol o ddiogelu data personol i'w dinasyddion. Ar unrhyw adeg, caiff Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd dynnu unrhyw benderfyniad ynghylch digonolrwydd yn ôl.

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru, yn enwedig y rhai yn y sector gwasanaethau ariannol a'r sector technoleg, yn dibynnu ar lifoedd data trawsffiniol; sef y gallu i drosglwyddo data personol am eu cwsmeriaid neu eu staff i gynnig nwyddau neu wasanaethau, ac i storio e-byst a ffeiliau ar y cwmwl.

Pe bai'r DU yn colli ei statws digonolrwydd data ar gyfer trosglwyddo data o dan y GDPR, byddai'r UE yn gofyn i fesurau diogelu priodol, fel y'u nodir o dan erthygl 46 o Reoliad (UE) 2016/679, gael eu rhoi ar waith gan gwmnïau sy'n trosglwyddo data rhwng busnesau/sefydliadau yn yr UE a busnesau/sefydliadau yn y DU.

Byddai'n ofynnol i fusnesau yn yr UE asesu digonolrwydd data'r busnes yn y DU fesul achos, a gweithredu un o'r chwe mesur diogelu a nodir ar gyfer trosglwyddo data. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol cynnwys cymalau safonol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer diogelu data mewn contractau rhwng busnesau yn yr UE a busnesau yn y DU, neu gallai fod yn ofynnol i fusnesau yn y DU gytuno i reolau corfforaethol rhwymol, yn achos cwmnïau amlwladol sydd ag is-gwmnïau yn y DU a'r UE.

Byddai rhoi mesurau diogelu data ychwanegol o'r fath ar waith wrth fasnachu â busnes yn y DU yn golygu y byddai busnesau yn yr UE yn wynebu gofynion gweinyddu ac adrodd ychwanegol. Gallai'r cymhlethdod a'r costau uwch hyn wneud busnesau yn y DU, ac felly busnesau yng Nghymru, yn llai deniadol i fusnesau yn yr UE fel partneriaid masnachu, gan leihau ein cystadleurwydd.

Byddai gofynion i gydymffurfio â mesurau diogelu data ychwanegol hefyd yn peri problemau ar gyfer busnesau Cymru, am y bydd cynnal gweithgareddau cydymffurfio yn cynyddu'r baich gwaith. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys amser staff, adnoddau cyfreithiol a chostau ariannol ychwanegol. Mae'n debyg y byddai is-gwmnïau y mae cwmnïau yn yr UE yn berchen arnynt yn dioddef yr effeithiau gwaethaf, gan ei bod yn bosibl y byddai'r costau a'r fiwrocratiaeth ychwanegol yn gwneud Cymru a'r DU yn llai deniadol ar gyfer buddsoddiadau gan gwmnïau yn yr UE.

Mae rheoleiddwyr diogelu data yng ngwledydd yr UE yn gyfrifol am sicrhau bod cwmnïau yn eu tiriogaethau'n cydymffurfio â chyfraith diogelu data'r UE. Caiff rheoleiddwyr roi dirwyon i gwmnïau nad ydynt yn rhoi'r mesurau diogelu data priodol ar waith. Er enghraifft, ar 22 Mai, cyhoeddodd Comisiwn Diogelu Data Iwerddon benderfyniad i roi dirwy o 1.2 biliwn Ewros ar Meta Platforms Ireland Limited (a elwid yn Facebook Ireland Limited yn flaenorol), Prif Weithrediadau Meta yn yr UE, ac atal trosglwyddo data rhwng yr UE ac UDA. Nid oedd yr UE o'r farn bod UDA yn bodloni gofynion statws digonolrwydd data. Dywedodd y Comisiwn Diogelu Data fod Meta wedi torri rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fesurau diogelu fod ar waith.

O ran pwynt b, yn ôl pob golwg nid yw'r fersiwn newydd o'r Bil yn asesu'r risg y gallai diwygio cyfundrefn y GDPR beryglu penderfyniad GDPR yr UE ynghylch digonolrwydd mewn perthynas â'r DU. Ein barn ni yw y gallai newidiadau i gyfundrefn GDPR y DU beryglu penderfyniad GDPR yr UE ynghylch digonolrwydd, sy'n cael ei fonitro'n gyson a gall gael ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg.

Mewn perthynas â phwynt c, mae'r mater hwn wedi cael ei godi gyda Llywodraeth y DU ar lefel swyddogol, sydd wedi rhoi sicrwydd nad yw'n gweld unrhyw berygl i'r cytundeb digonolrwydd gan y Bil. Mae swyddogion hefyd wedi gofyn i Lywodraeth y DU rannu copi o'i hasesiad risg ar y mater, nad ydym wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Cafodd y mater ei godi hefyd mewn cyfarfod rhwng Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Gwladol a'r Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar 17 Mai.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Mai 2023

Annwyl Mark,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Yn ein cyfarfod ar 9 Mai 2023, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) (y Memorandwm) am y tro cyntaf.

Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn i chi, a fydd yn ein helpu i lywio ein hadroddiad i'r Senedd ar y Memorandwm.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 1 Mehefin 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan y gallai'r materion hyn fod yn berthnasol i'w gwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cymal 54 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig) a chymal 56 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth)

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 54 a 56 o'r Bil, gan fod y cymalau hyn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ym marn Llywodraeth y DU. Nodwn y farn a fynegwyd gennych fod dehongliad Llywodraeth y DU o 'wasanaethau rhyngrwyd', sy'n fater a gadwyd yn ôl, yn "eithriadol o eang", a bod y cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig yn eich barn chi, sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes, a'u bod felly yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Cwestiwn 1: Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymalau 54 a 56 yn ymwneud â meysydd datganoledig – sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes – a allwch egluro pam na ddylid hefyd ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau eraill o sylwedd yn Rhan 2 o'r Bil (cymalau 46 i 60)?

Cwestiwn 2: Yn benodol mewn perthynas â chymal 56, ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar lefel y DU, ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymalau 61 i 77 (Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau)

Mae cymalau 61 i 77 o'r Bil yn darparu pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Trysorlys.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 42 o'r Memorandwm, rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 61 i 77 ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymal 92 (Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau)

Byddwch yn ymwybodol bod y cymal hwn yn diwygio adran 35 o *Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017* (Deddf 2017) i alluogi cyrff i rannu gwybodaeth i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau, gan ehangu'r trefniant presennol sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well i unigolion ac aelwydydd. Rhestrir y personau penodedig ("specified persons") yn Atodlen 4 i Ddeddf 2017 ac maent yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig amrywiol ("Welsh Bodies"). Mae adran 35 o Ddeddf 2017 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") wneud rheoliadau i

ychwanegu personau penodedig ac amcanion penodedig ("specified objectives"). Mae'r awdurdod cenedlaethol priodol yn cynnwys Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan gymal 92 o'r Bil i adran 35 o Ddeddf 2017 yn ymestyn pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes (pŵer Harri VIII) sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, drwy ychwanegu'r gair "undertakings" (sef ymgymeriadau, h.y. busnesau a chyrff elusennol) ochr yn ochr ag unigolion ac aelwydydd. Er enghraifft, byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i osod amcan penodedig â'r diben, yn ddarostyngedig i amodau eraill o dan adran 35, o wella gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i ymgymeriadau. Yn flaenorol, byddai cwmpas y pŵer hwn wedi'i gyfyngu i wella gwasanaeth cyhoeddus i unigolion ac aelwydydd.

Cwestiwn 4: A wnewch chi gadarnhau ein bod wedi deall y safbwynt yn gywir a bod y gwelliannau a wnaed gan gymal 92 yn ymestyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac a wnewch chi egluro pam mae'r wybodaeth hon wedi ei hepgor o'r Memorandwm.

Cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 93 yn rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu, drwy reoliadau, gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

Yn y Memorandwm, rydych yn nodi y dylid rhoi pwerau priodol i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar rannu gwybodaeth ar waith ar gyfer agweddau gorfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, a bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.

Cwestiwn 5:

a) A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn?

b) Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y materion a gadwyd yn ôl a'r materion datganoledig yn y maes hwn?

c) A allwch roi enghraifft o sut y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a/neu gyrff cyhoeddus datganoledig gyflawni cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93?

ch) A ydych chi'n ymwybodol o gytundebau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n cael eu gweithredu drwy bwerau'r Bil?

d) Gwnaethom fynegi pryderon pan roeddem yn craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal ynghylch y drefn o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i roi cytundebau gofal iechyd rhyngwladol ar waith, fel y cynigir yn y Bil hwn. Bryd hynny, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd y byddai cytundebau o'r fath yn cael eu

llywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol a gâi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Bil (cawsom fersiwn ym mis Chwefror 2022). A allwch gadarnhau a fydd trefniadau rhynglywodraethol tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 o'r Bil hwn (pan gaiff y Bil ei ddeddfu, cyhyd â bod hynny'n digwydd)? A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio?

dd) Pan roeddem yn trafod Confensiwn y DU/y Swistir ar gydlynu nawdd cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021, gwnaethoch esbonio nad oedd unrhyw ofynion newydd yn cael eu gosod ar fyrddau iechyd lleol Cymru i gyflawni'r trefniadau oddi tano. Beth yw eich barn ynghylch y graddau y gallai cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus Cymru gyflawni gofynion ychwanegol?

Cymal 36 (Hysbysiadau cyfweliadau)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 36 yn mewnosod yn *Neddf Diogelu Data 2018* adran 148A newydd sy'n gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cyfweliadau, y gellir eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson fynychu cyfweliad ac ateb cwestiynau yn unol â dymuniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth (y "Comisiynydd"). Nodwn, yn ymarferol, y bydd y cyfeiriad at y Comisiynydd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiwn Gwybodaeth sydd newydd ei ffurfio, o dan adran 102(2) o'r Bil.

At hynny, mae cymal 36 yn mewnosod adran 148B newydd, sy'n gosod cyfyngiadau penodol ar yr amgylchiadau lle gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad. Mae is-adran (9) yn rhestru cyrff na all y Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad iddynt, gan gynnwys: "the Office for Standards in Education, Children's Services and Skills in so far as it is a controller or processor in respect of information processed for the purposes of functions exercisable by His Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills by virtue of section 5(1)(a) of the Care Standards Act 2000." Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn ymwneud â: chofrestru cartrefi plant yn Lloegr; canolfannau preswyl i deuluoedd yn Lloegr; asiantaethau maethu yn Lloegr neu; pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth faethu, y canghennau yn Lloegr; asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol y mae eu prif swyddfa yn Lloegr, ac asiantaethau cymorth mabwysiadu yn Lloegr; neu, pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth cymorth mabwysiadu, y canghennau yn Lloegr.

Nid yw'r Bil yn cynnwys eithriad tebyg ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau ac asiantaethau tebyg yng Nghymru, gan olygu y bydd y Comisiynydd yn gallu rhoi hysbysiad cyfweliad mewn perthynas â'r materion hynny yng Nghymru ond nid yn Lloegr.

Cwestiwn 6:

a) A wnewch chi egluro a yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ac yn ffafrio'r sefyllfa hon?

b) A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd y mae cymal 36 wedi'i ddrafftio a'i effaith yng Nghymru?

Materion eraill

Yn y Memorandwm, rydych yn amlinellu amryw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r Bil yn ei gyfanrwydd. Yn benodol, ym mharagraff 34, rydych yn egluro bod yna bryderon bod "cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Mae'r posibilrwydd o golli penderfyniad digonolrwydd data'r UE yn bryder arbennig o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru, sydd â'u prif farchnad dramor yn yr UE o hyd."

Cwestiwn 7:

a) A ydych yn gallu ehangu ar y goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd hwnnw gan yr UE yn cael ei golli?

b) Os bydd y Bil yn pasio ar ei ffurf bresennol, beth yw eich barn am ei effaith ar benderfyniad digonolrwydd yr UE?

c) Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon